tafod elái

CHWEFROR 2017

Rhif 314

Pris 80c

## Pencampwyr Urdd Morgannwg Ganol 7 bob ochr




Ddydd Iau Ionawr y pedwerydd ar bymtheg, enillodd tîm rygbi Ysgol Castellau bencampwriaeth Urdd Morgannwg Ganol 7 bob ochr. Roedd gwen o glust i glust ar wynebau bois blwyddyn 5 a 6 a gwisgon nhw eu medalau gyda balchder am eu gwaith caled a brwdfrydedd ar y cae rygbi. Da iawn bois!

## Galw am 10 ysgol Gymraeg newydd i Gaerdydd

Mewn llythyr agored i'r wasg mae dros dwsin o enwogion yn cynnwys yr Archesgob Barry Morgan, Christine James, T. James Jones a Gwyneth Lewis yn galw ar Gyngor Caerdydd i ymrwymo i agor 10 ysgol gynradd Gymraeg newydd ar draws y brifddinas dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r llythyr yn dadlau bod angen yr ysgolion Cymraeg hyn i gyrraedd targed cenedlaethol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yn ogystal ag ateb y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg yn y brifddinas. Mae Cymdeithas yr Iaith wedi lansio deiseb i'r cyhoedd er mwyn cefnogi'r galwad sydd ar gael i'w llofnodi drwy fynd i http://cymdeithas.cymru.addysgcaerdydd.

A oes angen ymgyrch tebyg yn Rhondda Cynon Taf i gyrraedd targedau y Llywodraeth?

## Lucie Jones o Bentyrch ar Eurovision



Merch o Bentyrch fydd yn cynrychioli Prydain yng nghystadleuaeth Cân Eurovision. Roedd Lucie Bethan Jones, 25 oed, wedi cystadlu ar X-Factor yn 2009 aeth ymlaen i ddilyn gyrfa yn y theatr yn cynnwys rhan Cosette yn Les Miserables. Cyfansoddwyd ei chân "Never Give Up on You" gan Emmelie de Forest o Ddenmarc.

## Canolfan Gartholwg yn dathlu 10 mlwyddiant



Roedd 2016 yn flwyddyn arbennig iawn i Ganolfan Gartholwg gan ei bod yn dathlu 10 mlynedd ers ei sefydlu. Fel rhan o'r dathliadau cynhaliwyd nifer fawr o weithgareddau a phen llanw'r dathliadau oedd cyngerdd arbennig gyda Only Men Aloud a Chôr O2Five. Yn rhan o'r noson gwelwyd ffrwyth llafur prosiect cerddorol arbennig gyda phlant y gymuned.

Dros y ddeng mlynedd ddiwethaf mae dros 20,000 wedi cofrestru ar gyrsiau'r Ganolfan a dros 25,000 wedi dod i weithgareddau'r theatr ac mae'r Ganolfan wedi dod yn rhan ganolog o fywyd y gymuned yn ardal Pontypridd.

Nodai Rheolwr y Ganolfan, Heulyn Rees: 'Mae uchafbwyntiau'r ddegawd ddiwethaf yn niferus gan gynnwys perfformiadau gan yr enillydd Grammy Amy Wadge, perfformiadau niferus gan Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr Bara Caws, datganiad gan y delynores frenhinol Hanna Stone a sgyrsiau difyr yn cynnwys goroeswyr yr Holocost. Mae ein diolch yn fawr i'r gymuned leol sydd wedi cefnogi'r rhaglen lawn o weithgareddau theatr a'r holl gyrsiau addysg oedolion dros y blynyddoedd.'

Edrychwn ymlaen i weld y ddarpariaeth ardderchog yn parhau mewn cyfnod newydd.

## Merched y Wawr yn Dathlu'r Aur!

Eleni - 2017 - bydd y Mudiad arobryn, Merched y Wawr yn cyrraedd carreg filltir arbennig iawn - sef dathlu hanner can mlwyddiant o fodolaeth - hanner can mlwyddiant o weithgaredd, o ymgyrchu, o arloesi, o roi llais i ferched Cymru! Er mwyn nodi'r ffaith bydd yna lawer o ddigwyddiadau yn lleol ac yn genedlaethol. Ar hyn o bryd mae pob Cangen wrthi'n ddygn yn creu darn o waith llaw/ celf sy'n nodweddi'r ardal. Yn ffodus iawn i ni, yng Nghangen y Garth - mae gennym Loreen! Dim ond crybwyll oedd eisiau - a dyma Loreen yn mynd ati yn ei ffordd ddihafal, dawel ei hun i gynllunio darn o groesbwyth yn dylunio Mynydd y Garth - ac o fewn dim roedd wedi creu campwaith mewn croesbwyth! Ymhen hir a hwyr bydd y darnau yn cael eu gosod ynghyd i greu paneli lliwgar, diddorol fydd yn cynrychioli rhanbarthau'r Mudiad ac fe fyddant i'w gweld gynta', gobeithio yn Eisteddfod yr Urdd Penybont a Thaf Elái eleni. Diolch o galon, Loreen!



# Ysgol Creigiau

**Twrnament Pêl-droed yr Urdd**
Dydd Iau, 10fed Ionawr, aeth deunaw o fechgyn Blwyddyn 5 a 6 gyda Mr Balbini a Mr Howe i Dwrnamaint Pêl-droed yr Urdd ar gaeau Gerddi Soffia. Rhoddodd pawb o'u gorau gan fwynhau pob munud.

Tro'r merched oedd hi'r wythnos olynol i gystadlu yn y twrnamaint! Unwaith eto, fe chwaraeodd y merched i gyd yn frwdfrydig. Cawsant hefyd gyfle i gwrdd â thîm pêl-droed merched Cymru o dan 15!

**Gala Nofio'r Urdd**



Ddydd Sadwrn, Ionawr 21ain, cynrychiolodd Molly Brenchley, disgybl Blwyddyn 6, yr ysgol yng Ngala Nofio'r Urdd. Ym Mhwll Nofio Rhyngwladol Caerdydd. Llwyddodd i gyrraedd y rownd derfynol yn y ras nofio dull cefn i ferched Blwyddyn 5 a 6. Tipyn o gamp! Llongyfarchiadau!

**Plygain yn Eglwys Pentyrch**
Nos Iau, Ionawr 12fed, aeth pymtheg o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 i ganu yn y Blygain yn Eglwys Pentyrch. Fe ganodd y criw bach yn swynol dros ben, a mwynhau'r profiad hefyd o glywed unigolion a phartïon eraill yn perfformio.

**Ymweliadau gan Gyn-ddisgyblion**
Cafodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 wledd wrth i ddau gyn-ddisgybl ymweld â'r ysgol i siarad am eu profiadau yn teithio tramor. Daeth Matthew Stewart i rannu ei brofiadau ar ôl ei daith gyffrous ac anturus i Ynys Mafia, Tanzania. Dangosodd ffotograffau o'i daith a soniodd am ei waith gwirfoddol mewn ysgol gynradd leol a'i waith cadwriaethol morol. Yna, daeth Mabli Tudur a'i ffrind Lleucu Parri i rannu eu profiadau am eu taith fythgofiadwy i Batagonia. Roedd y ffotograffau gwych yn adlewyrchiad o'r mwynhad a gafodd y ddwy. Fe lwyddodd y ddwy hefyd i godi awydd ar nifer ohonom i ymweld â'r Wladfa.

**Wythnos Byw'n Iach**
Yn ddiweddar fe fuom yn dathlu 'Wythnos Byw'n Iach' yn yr ysgol. Trefnwyd llawer o weithgareddau amrywiol i godi ymwybyddiaeth o'r hyn y gallwn ei wneud i helpu'n hunain i fyw bywyd iach.

Drwy gydol yr wythnos roedd yr athrawon wedi cyflwyno gwersi arbennig yn seiliedig ar 'Fyw'n Iach' a bu'r Pwyllgor Eco'n hyrwyddo teithio'n fwy egnïol i'r ysgol. Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor Eco i ddisgyblion gerdded i'r ysgol neu ddefnyddio sgwter. Roedd y disgyblion yn ennill pwynt llys am eu hymdrechion i deithio'n fwy egnïol i'r ysgol yr wythnos honno.

# Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

**Aberdâr**
Ar Ionawr y 6ed aeth côr yr ysgol i dreulio noson ym Mharc Gwledig Cwm Dar yn Aberdâr. Roedd hi'n ddiwrnod prysur iawn yn dysgu eitemau'r Eisteddfod. Diolch i Mrs Howard am drefnu'r achlysur ac i'r holl staff aeth i helpu.





**Gwasanaeth Dosbarth**
Diolch i ddosbarth Miss Hughes am berfformio gwasanaeth hyfryd i'r ysgol ac i'r rhieni yn ddiweddar. Roeddech chi'n wych blant!

**Croeso mawr**



Croeso i Miss Danielle Williams sydd wedi dechrau heddiw ar ei gwaith fel cynorthwyydd yn y Cyfnod Sylfaen.

**Menter Llythrennedd**
Diolch i Tom o Glwb Pêl-droed Dinas Caerdydd am gynnal gweithdy Menter Llythrennedd gyda Blwyddyn 5.



Timau Pêl-droed Merched a Bechgyn





# Ysgol Pont-Sion-Norton

**Ras Nos Galan**



Llongyfarchiadau i Gwen Salmon am ennill ras y merched oed 8 i 9 nos Galan, yn Aberpennar. Gwych!

**Nofio'r Urdd**
Bu criw o blant yr Adran Iau yn cystadlu yng ngala nofio'r Urdd ym mis Ionawr. Llongyfarchiadau mawr i Gwen Salmon blwyddyn 4 am ddod yn ail yn y dull broga.

**Y 60au**



Diolch yn fawr iawn i Ms Wendy Morgan, mamgu Emma Brown ym mlwyddyn 5, am ddod i mewn i siarad am ei bywyd yn ystod y 60au gyda blynyddoedd 5 a 6. Cafwyd prynhawn diddorol iawn yn gofyn cwestiynau, edrych ar luniau a gwrando ar gerddoriaeth y 60au.

**Ar y ffordd i Disney!**
Ar ddiwedd mis Ionawr, bu noson i godi arian tuag at drip y côr i Disney i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Diolch i bawb am eu cyfraniadau tuag at y noson llawn hwyl!

**Rygbi**
Cafodd criw o fechgyn blynyddoedd 5 a 6 amser da yn y gystadleuaeth rygbi 7 bob ochr yr Urdd. Mae'r merched nawr yn edrych ymlaen at eu tro nhw ym mis Chwefror! Diolch i Mrs Cotter am hyfforddi a threfnu.



**Yr Orsaf Dân**
Aeth dosbarthiadau Mrs Rees, Mr Jones a Miss Reeves i ymweld â gorsaf dân Pontypridd fel rhan o'u thema. Cafwyd llawer o hwyl wrth ddysgu am yr offer a'u gwaith.



**Codi arian**
Diolch yn fawr iawn i Ffrindiau Pont-Sion-Norton am lwyddo i gael grant o £10,000 gan Aviva a £4,920 gan Tesco, tuag at wella iard yr ysgol. Rydym yn edrych ymlaen at weld y newidiadau.

Menter Iaith
Rhondda Cynon Taf

**01443 407570**

**www.menteriaith.cymru**

**Blwyddyn Newydd Dda!**

Hoffwn ddiolch i bawb am eich cefnogaeth yn 2016. Roedd yn flwyddyn lwyddiannus iawn i ni yma yn y Fenter â'r cyfarfod cyffredinol diwedd blwyddyn yn sicr yn profi llwyddiant ein gwaith ar hyd y sir. Edrychwn ymlaen nawr at y flwyddyn newydd gyda chyffro a brwdfrydedd.

Mae'n flwyddyn arbennig iawn i ni eleni. Mae'r Fenter yn dathlu ei phen-blwydd yn 25ain ac mae Eisteddfod yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr, Taf Elai ym Mhencoed felly bydd digon i'w ddathlu a'i wneud gydol y flwyddyn. Ymlaen â ni i 2017!

**Gweithgareddau Cymunedol a Theuluol**
**Parti Ponty 2017**

Rydym yn falch iawn i gyhoeddi mai **Dydd Sadwrn, 15fed o Orffennaf** yw dyddiad Parti Ponty eleni, lle byddwn nôl ym Mharc Ynysangharad Pontypridd. Da chi peidiwch â cholli'r Ŵyl Gymraeg arbennig yma.

**Gŵyl y Gwanwyn**

Edrychwn ymlaen at ddatblygiadau a threfniadau Gŵyl y Gwanwyn yn Aberdâr.

**Gofal ôl Ysgol yn Nhaf Elai:**

Pob darpariaeth yn £6 y plentyn am sesiwn:
Evan James. Llun – Gwener (bob nos hyd 5:30). Yn y broses o gael ei gofrestru gyda AGGCG
Pont Sion Norton. Llun + Iau (hyd 5:30)
Gartholwg. Llun – Gwener (bob nos hyd 6:00). Wedi ei gofrestru gyda AGGCG
Dolau. Llun – Iau (4 noson yr wythnos hyd 5:30)

**Cynlluniau Chwarae yn ystod gwyliau:**

Gartholwg. 9 – 5. Llun – Gwener
3 wythnos yn yr haf, hanner tymor yr Hydref a phob gwyliau Pasg
Sesiwn prynhawn am ddim os oes lle (1 – 5)
Archebwch le - £18 y dydd

**Grŵp Ffocws Teuluol Cwm Cynon**

Rydym yn parhau i gyfarfod gyda Grŵp Ffocws Teuluol Cwm Cynon lle byddwn yn trafod popeth yn ymwneud â'r teulu a'r Gymraeg. Cyfle gwych i fynegi'ch barn ac i chwarae rôl yn natblygiadau digwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg teuluol yn yr ardal.

Am fwy o fanylion a dyddiad y cyfarfod nesaf ewch i'r dudalen Facebook – Grŵp Ffocws Teuluol Cwm Cynon

Neu cysylltwch â Catrin Reynolds - Swyddog gweithgareddau Cymunedol a Theuluol y Fenter: 01443 407570
catrinreynolds@menteriaith.cymru

**Hwyl dros hanner tymor**

Os ydych chi'n chwilio am weithgareddau i'r plant dros wyliau hanner tymor Chwefror byddwn yn trefnu gweithgareddau yn llyfrgelloedd Aberdâr, Treorci a Phentre'r Eglwys.
Sesiynau Stori Cymraeg (Addas i blant 3 – 7oed)
Scrabl Cymraeg – (Addas i blant 8– 11oed)
Am ddim!

**Gweithgareddau Ieuenctid**
**POB NOS FAWRTH**
Aelwyd Pontypridd (16-25mlwydd oed)
Clwb y Bont, Pontypridd 7:30-9:00yh

**POB NOS FERCHER**
Adran Elai (Bl 7-9 Llanhari a Garth Olwg)
Pafiliwn Talbot Green 5:00-7:00 o'r gloch

**POB NOS IAU**
Clwb Ieuenctid Pontypridd (Bl 6-9 Garth Olwg) Muni, Pontypridd 6:00-8:00 o'r gloch

**Gwyddonwyr Ifanc**

Lansiodd Clwb Carco Aberdâr eu Clwb Gwyddoniaeth newydd ym mis Hydref, mewn ffrwydrad o gyffro ymysg y plant. *'Cafodd ein gwyddonwyr bychain gymaint o hwyl yn gwneud lampau lafa yn y sesiwn gyntaf fel na allan nhw aros i ddod yn ôl yr wythnos ar ôl i wneud llosgfynyddoedd'* -

Ar ddiwedd y tymor wnaeth pob plentyn a mynychodd y sesiynau i gyd graddio fel 'Gwyddonwyr Gwallgof.'




## Ysgol Gwaelod y Garth

**Gwasanaeth Cofio Trychineb y Llan 1875**

Ar y 12fed o Ragfyr, cymerodd blwyddyn 6 ran mewn gwasanaeth i gofio am y dynion a'r bechgyn a laddwyd yn nhrychineb Pwll Glo'r Llan yng Ngwaelod y Garth yn 1875. Rhannon ni wybodaeth am y dynion a'r bechgyn a weithiodd yn y pwll glo, darllenon ni ddarnau o farddoniaeth. Roedden wedi ysgrifennu a chanodd aelodau o'r côr 'Huna Blentyn'. Cymrodd aelodau o gymunedau'r pentref ran yn y gwasanaeth hefyd yna cawsom ni de a chacennau yn y Neuadd. Roedd hi'n fore bythgofiadwy!

Manon ac Elia, Blwyddyn 6



**Cyngerdd Côr y r Ysgol gyda CAVMS**

Perfformiodd côr Ysgol Gwaelod y Garth yn y Gate ar nos Sadwrn y 10fed o Ragfyr. Roedd yn gyngerdd arbennig a drefnwyd gan CAVMS ac fe berfformiodd y côr gyda cherddorfa CAVMS, a oedd yn cynnwys nifer o blant Ysgol Gwaelod y Garth. Roedd hi'n noson hyfryd. Diolch yn fawr i Mrs Price am hyfforddi'r côr ac i Mrs Williams am gyfeilio.



**Twrnament Gwyddbwyll**

Ar Ragfyr 15fed fe gafodd 16 ohonom gyfle i fynd i Lundain i gymryd rhan mewn twrnament Gwyddbwyll gydag ysgolion eraill ar draws Prydain. Fe welon ni chwaraewyr gwyddbwyll gorau'r byd yn chwarae ac roedd yn gyffrous dros ben gan eu bod yn ennill arian mawr. Dysgon ni llawer o strategaethau newydd i chwarae nôl yn yr ysgol. Cafon ni wobr am gymryd rhan, sef bag o anrhegion gwyddbwyll!
Lewis a Rhodri Blwyddyn 4



**Ymweliad Mark Dorey**

Ym mis Ionawr fe ddaeth awdur o'r enw Mark Dorey i'r ysgol i ddarllen ei lyfr newydd 'The Mystery of the Un-snowy Mountain and the Great Deep Sleep Miscalculation' Roedden ni wrth ein bodd gyda'r antur. Mr Dorey yw'r storïwr cyntaf i eistedd ar ein cadair adrodd stori arbennig sydd ar iard yr ysgol!



**MyW - Cangen y Garth yn dathlu Dwynwen!**
Gyda Dydd Santes Dwynwen yn digwydd disgyn ar nos Fercher eleni dyma griw da o ferched glandeg Cangen y Garth yn mynd i fwynhau swper hyfryd ym mwyty Dudley ym Meisgyn! Pawb 'di mwynhau. Digon o glebran. Lot o hwyl a llun i brofi hynny - er i Dudley ei hun ddianc cyn i ni ei ddal ar gamra!



Y Dr Wynn Davies, Bridfa Ceulan, Meisgyn, yng Nghylch Cadwgan yn Efail Isaf. "Ar gefn ei geffyl" oedd testun ei sgwrs. (Tudalen 10)




Gruffydd Evans, Creigiau, wedi ei ddewis i garfan rygbi dan 7 oed Pentyrch



Sara Pickard, Pentyrch, yn annerch cynhadledd yn Florida (Tudalen 7)



Cynllun uned gofal arbenigol newydd Ysbyty Llantrisant



Criw o blant a'u rhieni yn diddanu siopwyr yn Nhonysguboriau i godi arian ar Eisteddfod yr Urdd (Tudalen 6)

**Blasus ac Iachus (Tudalen 8)**



Hwyaden wyllt gyda saws Orenau Saville



Ceuled orenau Seville



Y Fari Lwyd ar noson Clwb y Dwrlyn yn y King's Arms, Pentyrch



Rhys Davies, Creigiau, gyda llu o wobrau pencampwiaethau golf. (Tudalen 6)

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau gwresog i Gwion ac Amanda Evans, Parc Nant Celyn ar enedigaeth mab bach. Ganwyd Dafydd Teifi ganol mis Rhagfyr yn anrheg Nadolig hyfryd i'r teulu bach.

Llongyfarchiadau hefyd i Barbara Griffiths, Heol y Ffynnon sydd wedi cael gor-wyres fach newydd. Cafodd Emily Mai ei geni i David a Jeni Mair, wyres Barbara, ym mis Tachwedd. Chwaer fach i Jacob.

Mae Varion Gapper hefyd wrth ei bodd wedi dod yn fam-gu yn ddiweddar. Cafodd Emyr Huw ei eni ar Ragfyr 4ydd yn fab bach i Alun a Margaret sydd bellach wedi ymgartrefu yn ardal Cas-gwent.

**Triniaeth yn yr Ysbyty**
Derbyniodd Varion Gapper driniaeth ar ei phen-glin yn yr ysbyty ddechrau mis Rhagfyr ac mae'n braf ei gweld yn ôl yn y capel ar y Sul.

Dymunwn yn dda i Ann Rees, Penywaun a hithau wedi derbyn triniaeth ar ei chlun yn ddiweddar. Dymunwn adferiad llwyr a buan i Ann hefyd.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Gareth a Caryl Hall Williams a'r teulu yn Heol y Ffynnon ar ôl i Gareth golli ei fam ym mis Rhagfyr. Bu faw Nia Hall Williams yn Ysbyty Llandochau ac roedd yr angladd yn Amlosgfa Thornhill ar y nawfed o Ionawr.

**Y TABERNACL**
**Diolch i Ann**
Mae Ann Dixey wedi penderfynu ymddeol o'i swydd ran-amser fel Rheolwraig Safle'r Tabernacl. Yn ystod ei chyfnod yn y swydd nid gwaith hawdd oedd cadw trefn ar bopeth, gan i'r festri a'r capel gael eu hadnewyddu yn ystod y naw mlynedd y bu Ann wrth y gwaith. Fore Sul, Ionawr yr wythfed cafwyd cyfle i gydnabod ei chyfraniad gwych i'r eglwys. Mi gyflwynodd Wendy Reynolds, Cadeirydd y Cyfarwyddwyr anrheg i Ann gan ddiolch iddi am gyflawni ei dyletswyddau mor drylwyr a chydwybodol.

**Rheolwr Safle Newydd**
Wrth ffarwelio ag Ann Dixey pleser yw croesawu ei holynydd, sef Ioan Rees, Dyffryn Bach. Mab hynaf Eirian ac Ann Rees yw Ioan a dymunwn yn dda iddo yntau yn ei "barchus arswydus swydd".

**Dathlu'r Nadolig yn y Tabernacl**
Bu'r Nadolig yn gyfnod prysur yn Y Tabernacl yn ôl yr arfer. Cafwyd Perfformiadau graenus gan blant yr Ysgol Sul ac Aelodau Teulu Twm. Diolch i dîm yr Ysgol Sul o dan arweiniad Bethan Reynolds ac i Catrin a Heulyn Rees sy'n tywys aelodau Teulu Twm.

Nos Sul, Rhagfyr 18fed cafwyd cyngerdd safonol iawn gan Gôr Godre'r Garth a Chôr y Cwm.

Ar y 24ain o Ragfyr trefnwyd Bore Coffi yng Nghanolfan y Tabernacl. Daeth nifer dda o aelodau a phentrefwyr ynghyd i fwynhau paned, teisennau blasus iawn a chlonc. Cyfrannwyd elw'r bore i bum elusen benodol yr eglwys sef Gofalwyr Ifanc, Gorwelion Newydd Iechyd Meddwl Aberdâr, Ysgol Tŷ Coch, Prosiect Cymoedd De Cymru, Y Samariaid ac Eye to Eye Counselling Rhondda Cynon Taf. Cariwyd thema'r pum elusen ymlaen i Oedfa Noswyl y Nadolig gan gynnau pum cannwyll i gynrychioli'r pum elusen. Codwyd £500 rhwng y Bore Coffi a'r Oedfa hwyrol.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Nia a Colin Williams a'r teulu ar golli mam Nia ddechrau'r flwyddyn hon. Cynhaliwyd angladd Mrs Eunice Morgan yn Amlosgfa Llanelli, ddydd Mawrth, Ionawr 17eg. Daeth nifer dda ynghyd i dalu teyrnged i wraig a fu'n weithgar a diwyd yn ei chymuned.

**Merched y Tabernacl**
Mi wnaeth aelodau Merched y Tabernacl gyfarfod yng nghaffi Pugh's ger Radyr ar Ragfyr 9fed i drefnu rhaglen 2017 dros baned o goffi.

Penderfynwyd cyflwyno £106 o arian y Raffl i leddfu ychydig o ddioddefaint y ffoaduriaid trwy law Cymorth Cristnogol.

Cyfarfod cyntaf yr aelodau am eleni fydd ymweliad â Neuadd Dewi Sant ar Ionawr 31ain am 1o'r gloch i gyngerdd awr ginio i wrando datganiad gan Sioned Gwen Davies. Sioned fydd yn cynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Canwr y Byd ym mis Mehefin.

**Tafod y Tab**
Ymddangosodd Rhifyn 7 o 'Tafod y Tab' o'r wasg yn ystod mis Ionawr, ac mae'n gylchgrawn hynod o ddiddorol. Diolch o galon i Emlyn ac Ann Davies am gynhyrchu'r cylchgrawn sydd yn rhoi newyddion yr eglwys mor gryno ac am y lluniau su'n britho'r tudalennau.

**Brysia Wella**
Mae holl aelodau'r Tabernacl am ddymuno gwellhad buan a llwyr i Olygydd Tafod Elái, Penri Williams sydd wedi treulio pythefnos yn yr ysbyty'n ddiweddar. Brysia wella.

**Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Chwefror**
Chwefror 5ed Emlyn Davies
Chwefror 12fed y Parchedig Aled Edwards
Chwefror 19eg Oedfa Deuluol gyda Dafydd a Lowri Roberts
Chwefror 26ain Y Parchedig Gethin Rhys.

# TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

**Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd 2017**
Diolch yn fawr i bawb a ddaeth ar y daith gerdded ar Ionawr 2ail. Roedd awgrym ar y diwedd y gallwn ni ei chynnal yn flynyddol gan godi arian at elusen.

Ein digwyddiadau nesaf fydd:
Nos Iau, 23 Chwefror am 7pm – Cyrri a chwis yn Mouchak - £15 y pen. Enwau i Helen os gwelwch yn dda.
Nos Fercher, 1 Mawrth am 6.30pm – Cymanfa Ganu yng Nghapel Moreiah, Gilfach Goch.
Dydd Sadwrn, 1 Ebrill – ras hwyaid. Mae hwyaid ar werth am ddwy bunt .
Dilynwch - https://www.facebook.com/pwyllgortonagilfach/.

**Llongyfarchiadau i Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail**
Llongyfarchiadau i holl staff a disgyblion yr ysgol ar adroddiad da iawn gan Estyn a fu'n ymweld â'r ysgol yn ôl ym mis Tachwedd.

## Clwb Gwawr Crotesi Creigiau

Nos Iau, 23ain o Chwefror, mae Clwb Gwawr Crotesi Creigiau a'r cylch yn cwrdd yn Neuadd yr Eglwys, Creigiau am 7.30 am Noson Cawl a Chân i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Y gost fydd £5.00 y pen. Hoffai'r clwb estyn gwahoddiad i Ferched y Wawr y Garth i ymuno â ni.

**Twmpath Dawns ac Ocsiwn**
Cynhaliwyd noson lwyddiannus iawn yn Neuadd Dowlais, nos Sadwrn, Ionawr 21ain i godi arian i Eisteddfod yr Urdd, Pen-y-bont ar Ogwr, Taf Elái. Dechreuodd y noson yn afieithus gyda Cherddorion Ifanc Nantgarw yn canu eu hofferynnau'n gelfydd. Ymunodd Dawnswyr Nantgarw gyda'r cerddorion wedyn i berfformio dawns neu ddwy i godi'r hwyl. Tro'r plant a'r oedolion ddaeth wedyn i gael dawns twmpath a Cliff Jones yn galw.

Cafwyd arddangosfa o glocsio crefftus gan Osian Gruffydd cyn i Geraint Rees, yr arwerthwr o fri, gamu i'r llwyfan i ddechrau gwerthu'r holl eitemau a gyflwynwyd gan garedigion yr ardal. Roedd yr eitemau'n amrywio o benwythnos mewn bwthyn yn Nhresaith i luniau gan artistiaid enwog fel Anthony Evans, Vera Gammon ac Alun Davies. Cynigiwyd comisiwn o ddarn o farddoniaeth gan y ddau brifardd Glenys Roberts a Cyril Jones. Gwerthwyd amryw o brydau bwyd a sesiynau recordio mewn stiwdio.

Gyda'r ddwy raffl a drefnwyd, a'r bar daeth cyfanswm y noson i £3500.

# LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd y mis: Dafydd Roberts

**Ffrwydriad yn Y Pant**
Oddeuty amser cinio ddydd Sul, Ionawr y 15fed, cafodd yr ardal gyfan ei siglo gan ffrwydriad. Clywyd y glec o Benygawsi i Bontyclun ac ar draws Tonysguboriau a Meisgyn. Yn ôl gwefan y BBC, cafwyd datganiad gan yr Heddlu bod 'controlled explosion' wedi cymryd lle ar gemegolion y cafwyd hyd iddynt yn Ysgol Gyfun Y Pant. Wedi'r ffrwydriad, cafodd y gwastraff ei gludo i dir ger Ysgol Gymraeg Llantrisant. Yn ôl yr heddlu doedd dim peryg i'r cyhoedd, ond ni welwyd gwybodaeth bellach. Mae nifer yn holi beth yn union yw'r hanes llawn.

**Ymgynghoriad Tai**
Mae'n debyg i "gyfnod ymgynghoriad" ddod i ben, yn ystod mis Ionawr, ar ddatblygiad tai mawr yng nghanol yr ardal. Mae cynlluniau i godi dros 400 o dai rhwng Meisgyn a Thonysguboriau. Mae nifer o drigolion yn pryderu gan fod tagfeydd ar y ffyrdd cyfagos am rannau helaeth o bob diwrnod, a'r tir yn dueddol o lifogi. Serch hyn, nifer fach oedd yn gwybod am yr ymgynghoriad cyn gweld erthygyl yn y *Pontypridd Observer* ychydig ddyddiau cyn i'r ymgynghoriad gau. Nid oes chwaith wybodaeth yn ardal gwefan y cyngor ar ymgynhoriadau. Mi fydd rhaid i'r rheini sydd am wybod mwy, gysylltu â chyngor Rhondda Cynon Taf.

**Grŵp codi arian Macmillan, Pontyclun a'r ardal**
Mae criw codi arian Macmillan yn gweithio'n ddiwyd yn lleol i godi arian er mwyn helpu pobl sydd â chanser. Bellach mae'r criw wedi codi dros £70,000 tuag at waith yr elusen. Yr her nesaf yw codi ymwybyddiaeth ac arian tuag at brosiect diweddaraf Macmillan sydd – ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – yn bwriadu adeiladu uned gofal arbenigol newydd gwerth dros chwe miliwn a hanner o bunnau yn lleol.

Mae'r elusen a'r bwrdd iechyd wedi cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio i ddatblygu uned o'r radd flaenaf yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Os caiff y cynlluniau eu cymeradwyo, byddai Macmillan yn cyfrannu £5m tuag at yr uned, sef ei chyfraniad unigol mwyaf yng Nghymru. Byddai'r uned arbenigol yn cynnwys 8 gwely ac yn darparu gofal i gleifion mewnol a chleifion allanol a gofal lliniarol yn ystod y dydd a chymorth i bobl â chanser na ellir ei wella a chyflyrau eraill. Os caiff y cynlluniau eu cymeradwyo, disgwylir i'r gwaith ddechrau yn hwyrach eleni, a bydd y ganolfan yn agor gobeithio ddiwedd 2018 neu ddechrau 2019.

Mae'r criw yn prysur drefnu rhaglen bellach o weithgareddau codi arian ar gyfer y prosiect ac yn hynod ddiolchgar am y gefnogaeth barhaus gan y gymuned leol.

**Croeso Gartref**
Mae'n braf gallu dweud bod Sian Cadifor wedi dychwelyd adref ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty. Mae pawb yn anfon eu dymuniadau gorau ati.

**Nôl i Hong Kong**
Bydd 'na ddagrau yn Portreeve Close ddiwedd mis Ionawr wrth i Nia, Simon, a Lena ddychwelyd i fyw i Hong Kong. Ers genedigaeth Lena nôl ym mis Awst mae'r tri wedi bod yn aros gyda Geraint a Rhiannon. Fe fydd colled fawr ar eu holau, a phawb yn gobeithio eu gweld nôl yn Llantrisant yn y dyfodol agos.

**Pwyllgor Apêl yr Urdd – Hwyl a'r ŵyl**
Am yr ail flwyddyn yn olynol bu criw o blant a'u rhieni yn diddanu siopwyr yn Nhonysguboriau gyda detholiad o garolau Nadoligaidd. Roedd 'na ganmol i'r canu a chodwyd dros £100 i Eisteddfod yr Urdd 2017. Mae'r criw brwd yn sôn am barhau â'r traddodiad y Nadolig nesaf gan godi arian i elusennau lleol.

Ddiwedd mis Tachwedd daeth y cyn ddyfarnwr, sylwebydd a chwisfeistr brwd, Alun Wyn Bevan i Bontyclun. Fe gafwyd noson o Gwis a Chyri ym mwyty Indiaah, gyda nifer o dimau a chodwyd £500. Llongyfarchiadau i Sian Thomas am ennill y wobr gyntaf mewn datglwm cyffrous. Y cwestiwn hollbwysig... Ble mae cartref unig fad achub Sir Gâr? Yr ateb fis nesaf!!

Ddechrau Rhagfyr aeth criw o siopwyr brwdfrydig i Gaerfaddon i ymweld â'r Farchnad Nadolig yno. Diolch i Gwawr a Helen cafodd y criw ddiwrnod i'w gofio – a'r adloniant ar y bws yn falm i'r enaid.

Digwyddiad nesaf y pwyllgor fydd cyngerdd ar ddydd Gŵyl Dewi gyda corau o dair ysgol leol, Côr Tadau Trisant, a Chôr yr Einion yn perfformio yn Eglwys Babyddol, Meisgyn. Dewch yn llu.

**Merched y Wawr Toynsguboriau yn dysgu am 'steil'**
Bydd dim angen i Ferched y Wawr Tonysguboriau gael cyngor 'Huw Fash' eleni, gan fod ganddyn nhw arbenigwraig yn y byd ffasiwn yn un o'n haelodau. Rhannodd Beryl Rowley ei gwybodaeth a'i llygad am steil a ffasiwn gyda'r gangen yn eu cyfarfod ar gychwyn y flwyddyn newydd. Yn ôl Eluned Scott sy'n aelod 'cawsom gyngor ar sut i wisgo dillad a defnyddio lliw i wneud y gorau o siâp a maint y ffigur'. Rhoddodd Beryl gipolwg ar ei gyrfa fel steilydd i Dŷ Fraser a'i phrofiadau o fynd i brynu dillad ar gyfer y cwmni ym Milan a Pharis. Mae hi yn feirniadol o'r dirywiad yn y diwydiant gwneud dillad yn y wlad hon a ffit ac ansawdd gwael y dillad sy'n cael eu mewnforio o dramor. Mae Beryl wrth ei bodd yn arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o wisgo dillad ac yn feistres ar gynllunio dillad ei hunan ac ar ddefnyddio'r peiriant gwnio. Mae hi'n ffan mawr o steil Judi Dench ac ac yn cymryd ysbrydoliaeth o'i harddull gwisgo.

Gohebydd mis nesaf: Siân Llewellyn Barnes, sian.llewelyn@cbac.co.uk

# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams

**Golffiwr**
Llongyfarchiadau i Rhys Davies ar flwyddyn lwyddiannus iawn ar y cwrs golff. Yn ogystal ag ennill nifer o gystadlaethau golff iau yng Nghreigiau llwyddodd hefyd i ddod yn fuddugol mewn 3 cystadleuaeth hŷn. Cafodd hefyd ei ddewis i fod yn rhan o garfan golff y Sir. Da iawn ti, Rhys! A lwcus bod Dad a Mam 'di creu gât yn syth allan i'r tî cynta.

**Nôl yn eu cynefin!**
Croeso i'r Creigiau ers rhai misoedd bellach Ashley, John a'r plantos sy' wedi hen ymgartrefu ym Mrynderwen ar y ffordd fawr. A braf croesawu Lorraine a Charles Middleton i'w cartref newydd ym Mharc y Fro.

**Brysia wella ...**
... Marian (Jones) bach. Yn meddwl amdanat ac yn dymuno llwyr wellhad i ti a hynny yn fuan.

**Llwyddiant Gruff!** (Llun tudalen 4)
Llongyfarchiadau mawr Gruffydd Evans, ar gael dy ddewis i garfan rygbi dan 7 oed Pentyrch ers mis Mai llynedd! Tithe erbyn hyn wedi chwarae sawl gêm dros y gaeaf. Da iawn ti, dal ati i ymarfer! Bydd Alun Wyn yn ymddeol rhyw ddydd!

**Llwyddiant Dad!**
Gawn ni hefyd ddymuno'n dda i Mr Marc Evans, Tad Gruff, ar ei ddyrchafu'n bennaeth Gwyddoniaeth yn Ysgol Llanhari. Rhoddodd Marc flynyddoedd o wasanaeth i Ysgol Plasmawr cyn gadael am Lanhari ar ddechrau'r flwyddyn.

**Croeso 'nôl!**
Mae wir yn hyfryd cofnodi bod Margaret Knight wedi symud yn ôl i'r pentref! Yma mae dy le, Margaret a does dim dwywaith na fydd Eleri ac Owen a'r nythaid o wyrion mor falch o gael Mam-gu 'nôl yn agos. Pob lwc hefo'r mudo a phob hapusrwydd yn dy gartref newydd!

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Nia a Colin Williams a'r teulu ar golli mam Nia ar ddechrau mis Ionawr. Roedd hi'n un o gymeriadau ardal Cydweli.

# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**Y Plygain**
Er bod nos Iau'r 12fed o Ionawr yn un o'r nosweithiau oeraf y gaeaf yma, roedd yna awyrgylch gynnes braf yn Eglwys Sant Catwg ym Mhentyrch lle cynhaliwyd y Blygain flynyddol sy'n cael ei threfnu gan Glwb y Dwrlyn. Roedd yr eglwys yn gyfforddus lawn ac wyth cyflwyniad wedi eu paratoi gan unigolion, triawd, partïon a chôr. Arweiniwyd y gwasanaeth yn ddeheuig fel arfer ar ran y Dwrlyn gan Rhodri Gwynn Jones a roddodd dipyn o gefndir dwyieithog i hanes y Blygain yn ogystal â thraddodiad y Bari Lwyd.

Hon oedd y chweched flwyddyn i'r Blygain gael ei chynnal ym Mhentyrch ac fe'i hagorwyd yn swynol, ac mewn cywair defosiynol addas, gan barti Ysgol Gynradd y Creigiau. Cyflwynwyd y Fendith gan Reithor yr Eglwys, y Parchedig Michael John, ac yn glo ar y cyfan gwahoddwyd pawb i ymuno i ganu Carol y Swper dan arweiniad Parti'r Efail.

"Mae heddiw'n ddydd cymod, a'r swper yn barod, a'r bwrdd wedi ei osod, o brysiwn."

Casglwyd cyfanswm o £351 tuag at ddwy elusen o ddewis yr eglwys - y Groes Goch a hosbis Holme Towers.

Ar ôl y moli mentrwyd dros y ffordd i'r Kings Arms am y gyfeddach efo'r Fari Lwyd. Fel y gŵyr selogion diwylliedig y golofn hon, hen Fari Lwyd Pentyrch yw'r Fari sy'n cael ei harddangos yn Sain Ffagan gan mai hi, yn ôl yr hanes, oedd yr olaf i'w defnyddio. Ond ers 1996 mae Clwb y Dwrlyn wedi atgyfodi'r hen arferiad ac wedi ei gyplysu bellach efo'r Blygain. Roedd criw da yn y Kings a digon o frwdfrydedd gan Mari a'i gosgordd. Ond oherwydd bod y dafarnwraig wedi cael ei hanafu yn hwyr yn y dydd roedd yna brinder staff tu ôl i'r bar ac amynedd sawl cwsmer sychedig yn cael ei drethu! Er gwaethaf hynny fe gafwyd noson gofiadwy a diolch i bawb a fu wrthi yn ddyfal efo'r trefniadau. (Eifion Glyn)

**Sara yn Florida**
Dyma adroddiad gan Sara Pickard o'i hamser yn Florida nôl ym mis Hydref. "Ble mae Sara - y cam nesa!!!
Fel rhan o'm gwaith gyda Mencap Cymru rwy hefyd yn rhan o fudiad o'r enw Inclusion International ac fe ges i gyfle i fynychu'r Gyngres Fyd-Eang o'r sefydliad yn Orlando Florida nôl ym mis Hydref.

Bu dros fil o bobol yn cynrychioli 46 o wledydd yn y gynhadledd. Fel aelod o gyngor Inclusion International fe fues i mewn nifer o gyfarfodydd lle buom yn gweithio ar ddatblygu gweithgareddau'r mudiad. Un o brif themâu'r gynhadledd "Shaping the Future" oedd pwysigrwydd datblygu sgiliau hunan-eiriolaeth (self advocacy) pobol ag anableddau dysgu fel y gallent hyrwyddo agweddau positif ymhlith eraill. Fe lansiwyd adroddiad "Self Advocacy for Inclusion Global Report" sef penllanw dros ddwy flynedd o waith ymchwil mewn cydweithrediad â grwpiau hunan-eiriolaeth dros y byd. Dyma rhan o neges yr adroddiad: 'Rydym ni'n bobol. Mae gennym ni hawliau. Rydym ni eisiau'r un cyfleoedd ag eraill. Rydym ni eisiau'r cyfle i rannu ein meddyliau a'n dyheadau. Rydym ni eisiau byw mewn byd lle cawn ni ein derbyn am yr hyn yr ydym a'r hyn y gallwn ei wneud. Rydym am helpu eraill i gael y gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ddod yn hunan-eiriolwyr.

Bûm i'n ffodus i siarad yn un o'r prif sesiynau yn y gynhadledd ar y pwnc "Challenging Stigma Associated with Intellectual Disability" ochor yn ochor ag academyddion o Lundain a seicolegydd o Nigeria. Cawsom dderbyniad arbennig iawn a thrafodaeth fywiog i ddilyn.

Roedd yn wythnos o ganolbwyntio dwys a gwaith caled, ond yn ffodus iawn cefais gyfle i ymlacio am rai dyddie gyda'm cyd-weithiwr Zoe yn y Deyrnas Hud (Magic Kingdom!) ac wrth ochor y pwll yn y gwesty cyn dychwelyd i Gymru fach a'm gwaith bob dydd gyda Mencap Cymru. Mae'r gynhadledd nesa ymhen dwy flynedd yn ... Birmingham!! Ddim cweit mor ecsotig ond diau yn llawn mor ddiddorol!"

**Dathlu Geni Wyresau**
Mae dau deulu yn y pentre yn hapus iawn wedi iddynt gael wyresau bach yn ddiweddar.
Llongyfarchiadau i Bronwen a Jim Morris, Troed y Garth, ar eni merch fach, Erin, i Heledd a'i gŵr Elgan Davies.

Llongyfarchiadau hefyd i Anne a David Ashmore ar enedigaeth eu hwyres fach, Sophie, i Helen a'i gŵr Tom Wrathmell.
Pob dymuniad da i'r ddau deulu bach.

**Croeso**
Croeso mawr i Sara, merch Sue a Roy Davies , Creigiau, a'i gŵr Richard Skevington a'u plant Jack ac Erin i Bentyrch. Maent wedi symud o Feisgyn i Heol Goch ac mae Jack newydd ddechrau yn Ysgol Creigiau. Mae'n siŵr y byddwch yn hapus iawn yma yn ein plith.

**Dymuniadau Da**
Mae pawb ohonom wedi gweld eisiau Penri Williams, ein golygydd gweithgar, wrth iddo dreulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Mae'n dda ei fod wedi cael dod adre a'i fod yn cryfhau yn raddol. Brysia wella Penri a cofia dy fod yn ufuddhau i orchmynion nyrs Carol!

# CANTORION CREIGIAU

Ydych chi'n mwynhau canu? Os ydych, dewch i ymuno â Chantorion Creigiau, eich côr cymysg lleol (soprano, alto, tenor, bas). Rydym yn ymarfer ar nos Sul yng Nghlwb Golff y Creigiau o 19:30 hyd 9:00. Mae croeso i aelodau newydd o unrhyw oed neu lais; nid oes rhaid i chi fod yn gallu darllen cerddoriaeth, ond eich bod yn barod i ddysgu canu amrywiaeth o ddarnau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym yn ymarfer yn yr ystafell lan llofft yn y clwb. Ar ôl ymarfer, mae llawer o aelodau'r côr yn mwynhau cymdeithasu yn y bar i lawr grisiau. Rydym yn perfformio cyngherddau amrywiol, a hynny'n lleol, yn ardal Caerdydd a'r Fro neu y tu hwnt pan fyddwn yn teithio i leoliadau yng Nghymru a Lloegr.

Perfformir cyngherddau er mwyn rhoi mwynhad i'r côr ac i'r gynulleidfa, ond hefyd fel ffordd o godi arian ar gyfer elusennau. Dros 45 o flynyddoedd mae'r côr wedi codi dros filiwn o bunnoedd ar gyfer amrywiaeth eang o elusennau. Os hoffech i Gantorion Creigiau berfformio mewn cyngerdd ar gyfer elusen o'ch dewis cysylltwch â'n Trefnydd Cyngherddau : Varion Gapper ; rhif ffôn. 01443 207923 neu ar e-bost : varionggapper@gmail.com

Mae un gyngerdd wedi'i threfnu'n barod - Mawrth 24 yng Nghlwb Golff Llanisien.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yn ein cyfarfod diwethaf (Ionawr 16eg) cawsom gwmni'r Parchedig Ddr. Noel Davies o Abertawe i'n hannerch ar y testun Bôngelloedd. Dyma enghraifft o arallgyfeirio fel yr eglurodd Noel wrth ddweud mai hwn oedd y tro cyntaf iddo annerch cymdeithas wyddonol ar destun gwyddonol. Bydd llawer yn gwybod amdano yn bregethwr a darlithydd bywiog a threiddgar; treuliodd ei oes yn weinidog yr Efengyl Gristnogol yng Nghymru a hefyd yn swyddog gyda mudiadau ecwmenaidd dan nawdd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Dilynodd gyrsiau gradd mewn cemeg a biocemeg yn y brifysgol ym Mangor. A gyda hynny dyma newid llwyr ac ennill gradd mewn diwinyddiaeth yn Rhydychen a mynd i'r weinidogaeth. Maes o law dyfarnwyd iddo radd ddoethur. Wedi ymddeol ail-gydiodd mewn gwyddoniaeth ac ennill gradd yn Y Brifysgol Agored. Y cam mwyaf diweddar yn ei yrfa yw'r gwaith ymchwil ar gyfer gradd Meistr yn Ysgol Feddygol, Prifysgol Abertawe. Yr ymchwil hwn oedd sail ei anerchiad i ni.

Mae bôngelloedd yn medru cael eu ffurfio'n gelloedd newydd mewn gwahanol organau yn y corff, er mwyn adfer yr organau hynny a'u cadw i weithredu fel y dylent, megis celloedd yr ymennydd. Gan mai methiant y galon yw achos pennaf marwolaethau yn y Gorllewin, gallai cyfraniad bôngelloedd drawsnewid bywydau miliynau.

Mae'n debygol y gwelir cyhoeddi ym mis Gorffennaf gyfrol Cristnogaeth a Gwyddoniaeth gan Noel Davies a Hefin Jones.

## Colofn Blasus ac Iachus

**Hoff ddefod flynyddol**

(Lluniau tudalen 4)

Yn union ar ôl i arogleuon olaf y goeden Nadolig a chanhwyllau persawrus ddiflannu mae'n tŷ ni yn llawn o arogl orennau aromatig. Does dim byd gwell i sirioli diwrnod gaeafol diflas na mynd ati i wneud marmalêd.

Erbyn y penwythnos cyntaf o'r flwyddyn newydd rwy'n gwybod ei bod yn amser i chwilio am orenau Seville. Ni chefais drafferth cael hyd i rai eleni ac roedd sawl ymateb i'm post ar Gweplyfr am hyn - efallai fod gwneud marmaled yn dod yn fwy poblogaidd! Serch hynny, mae'r cyffaith traddodiadol hwn wedi mynd allan o ffasiwn ac yn diflannu oddi ar y bwrdd brecwast gan gael ei disodli gan jam neu bast siocled gyda'r rhan fwyaf o'r prynwyr marmalêd dros 45 oed.

Wrth wraidd traddodiad blynyddol hwn, wrth gwrs, yw'r ffaith syml bod marmalêd cartref lawer iawn gwell na'r rhai sydd ar silffoedd yr archfarchnadoedd. Ond mae'r broses hefyd yn ddefodol, bron yn obsesiwn, ac yn hynod foddhaol; mae'n atgoffa rhywun o oes pan oedd yn arferol i gymryd peth amser bob blwyddyn i wneud rhywbeth tymhorol, defnyddiol a blasus o ychydig o gynhwysion sylfaenol. Mae amryw helaeth o rysetiau sy'n cynnwys popeth o wisgi i chilli (gyda rhai rysetiau teuluol cyfrinachol) ond cymysgedd syml o orennau Seville â ffrwythau sitrws eraill a siwgr gronynnog yw'r cyfan sydd ei angen.

Mae orenau Seville gyda'u croen anwastad hynod aromatig yn tarddu o Tsieina ac India ac yn 'hybrid' o mandarin a pomello - eu henw Indiaid yw "narayam", sy'n golygu "persawr o fewn". Cawsant eu dwyn i Ewrop gan fasnachwyr Arabaidd gyda llwyni ohonynt yn cael eu sefydlu ym Andalucia, yn fwyaf nodedig o gwmpas Seville, a dyna pam eu henw. Yn y wlad hon roeddem yn gyfarwydd â orennau chwerw (Citrus aurantium) ymhell cyn y rhai mwy melys (C. sinensis). Fel gyda phob ffrwyth egsotig a fewnforiwyd braint i'r cyfoethog oeddynt gan gyfrannu i brydau egsotig. Mae rysetiau ar gyfer pwdinau, sawsiau a chyffeithiau a wnaed gyda orennau Seville yn mynd yn ôl canrifoedd lawer ond llyfr ryseitiau Madam Eliza Cholmondeley, wedi'i sgwennu tua 1677, yw'r cofnod cyntaf ar gyfer Marmelet o Oranges sy'n cymharu â'n marmalêd cyfoes.

Daeth cyfle annisgwyl i gynhyrchu marmalêd ar raddfa fasnachol pan gafodd llong oedd yn cario llwyth o orennau Seville ei gorfodi i gysgodi rhag storm yn yr harbwr yn Dundee. Prynwyd yr orenau yn rhad gan groser lleol, un James Keiller, a manteisiodd ei wraig, Janet, ar gyflenwad parod o siwgr o siop ei gŵr a'u troi i mewn i farmalêd. Erbyn 1797, roedd y teulu wedi agor y ffatri marmalêd cyntaf, dyma sut ddechreuodd cysylltiad hir y ddinas gyda'r enwog gyffaith.

Nid yr Albanwyr ddyfeisiodd marmalêd. Gair Portiwgaleg gyfer cwins, marmelo, roddodd ei enw i marmelada, sef past trwchus o gwins melys. Yn oes y Tuduriaid roedd "marmaleds" yn cael eu gwneud o bob math o ffrwythau, o gellyg i eirin ac eirin Mair. Erbyn 18fed ganrif roedd marmaled mwy meddal o orenau yn cael ei baratoi mewn tai bonheddig yr Alban ac yn cael ei weini amser brecwast yn hytrach na fel diweddglo melys i bryd o fwyd.

Rwy'n gobeithio y bydd rhai ohonoch am gymryd yr her o wneud marmaled y tymor hwn - nid yw'n anodd ac mae rysetiau a 'tips' ar gael ar wefan <http://www.bbcgoodfood.com> i'ch helpu. Os ydych yn anturus rhowch dro ar wneud ceuled o'r orenau, ni fydd yn para cyhyd (tua 3-4 wythnos yn yr oergell) ond mae'n flasus iawn yn enwedig fel llenwad i spwng Victoria neu mewn tartenni bach gyda ffrwythau fel llus a mefus. Os nag oes gennych amser gallwch rewi'r orenau yn gyfan.

Gall y sudd persawrus sur gael ei ddefnyddio ar gyfer rysetiau eraill hefyd gan gymryd lle sudd lemon neu leim mewn marinadau a dresin ac mewn saws yn enwedig i gyd-fynd gyda chigoedd cyfoethog fel hwyaden. Peidiwch â gwastraffu'r croen - ychwanegwch stribed i bouquet garni i roi dyfnder i flas stiwiau cig eidion neu gwnewch yn groen siwgrog (candied peel) a'i roi mewn hufen ia neu gacen.

Os am gael dewis arall i dost a marmalêd i frecwast rhoch dro ar wneud Myffins Marmalêd:-

Rhidyllio 150g blawd codi, 1 llwy de pwdwr codi a hanner llwy de o halen i fowlen.

Toddi 50g menyn a'i adael i oeri ychydig cyn ei ychwanegu i 1 llwy fwrdd almonau wedi'u malu, 1 wy mawr, croen oren wedi'i gratio'n fan a'r sudd (wedi'i wneud i fyny i 120ml gyda llaeth os oes ei angen) a'u cymysgu'n dda. Yna rhidyllu'r blawd am yr ail dro (i gael digon o aer i mewn iddo) a'i gymysgu'n ysgafn gyda'r cynhwysion eraill cyn ychwanegu 225g o farmalêd. Rhannu'r cymysgedd gydrhwng 8-9 cesyn myffin a'u coginio ar 190°C, Nwy 6 am 20-25 munud. Brwsio'r myffins gyda mwy o farmalêd a gadael iddynt oeri ar rac.

## Ysgol Evan James

**Hwyl fawr a phob lwc Mr Carbis!**

Ar ddiwedd tymor yr Hydref fe ffarwelion ni â Mr Carbis - am y tro. O fis Ionawr ymlaen, fe fydd yn gweithio yn y consortiwm yn datblygu'r Gymraeg yn ein hysgolion am gyfnod o ddwy flynedd. Mrs Emma Smith fydd y pennaeth yn ystod y cyfnod hwnnw. Hoffem ddymuno pob lwc i'r ddau ohonynt. Mae Mr Dyer bellach yn gweithio fel athro yn Nosbarth Culhwch ac Olwen.

**Sioeau gwych**

Roedd plant yr ysgol yn ffodus iawn i gael gweld perfformiadau byw campus cyn y Nadolig. Daeth Martyn Geraint i ddiddanu plant y Cyfnod Sylfaen gyda'i sioe Nadoligaidd. Buom ni oll yn canu a dawnsio gyda Martyn yn neuadd yr ysgol. Aeth blwyddyn 3 a 4 i Theatr y Sherman i weld "The Borrowers". Roedd yr achlysur yn un arbennig gan fod un o gyn-ddisgyblion Evan James, Huw Blainey, yn chwarae un o'r prif rannau. Mae Huw yn actor llwyddiannus sy'n galw i mewn i'n gweld yn achlysurol pan nad yw'n rhy brysur.

**Cyngherddau mawreddog côr yr ysgol**

Roedd y côr yn ffodus iawn i dderbyn dau wahoddiad arbennig i ganu mewn cyngherddau mewn lleoliadau hyfryd. Eglwys Gadeiriol Llandaf oedd lleoliad y cyngerdd cyntaf i godi arian i'r elusen "Meningitis Now". Darlledwyd yr ail gyngerdd, a gynhaliwyd yn Neuadd Dewi Sant ar Ragfyr y 18fed, ar y radio dros y Nadolig. Ni fydd y côr yn anghofio perfformio gyda Cherddorfa a Chôr y BBC.

**Dathlu'r Nadolig**

Bu'r cyfnod cyn y Nadolig yn un hynod o brysur. Cafwyd sioeau a chyngherddau gwych gan bob dosbarth. Roedd neuadd yr ysgol ac Eglwys Santes Catrin dan eu sang.

Aeth rhai o blant blwyddyn 1 a 2 i'r cartref lleol, Tŷ Gwynno, i ganu carolau i'r henoed. Roedd teisen a sudd i bawb ar ddiwedd y bore. Blasus iawn!

Gwahoddwyd disgyblion blwyddyn 3 a 4 i ganu carolau yng nghanol Pontypridd ac roedd y trigolion lleol wrth eu boddau'n gwrando arnynt.

**Gwaith elusennol**

Ar y 15fed o Ragfyr, trefnodd disgyblion hŷn yr ysgol ras hwyl ym Mharc Ynys Angharad ac fe redodd pob un o blant yr adran iau yn wych i godi arian i'r elusen Macmillan. Codwyd dros £500 – bendigedig!

Ar ddiwrnod olaf y tymor, gwisgodd pob disgybl siwmper Nadolig i godi arian i'r elusen Achub y Plant. Yn ogystal â hyn, rhoddwyd 3 hamper o fwyd i Mr Peter Lewis, o Eglwys Santes Catrin, i'w dosbarthu i deuluoedd anghenus dros y Nadolig. Diolch i blant dosbarthiadau Tom Jones, Cerys Mathews ac Elin Fflur am gasglu'r holl fwyd.

**Pigo dy drwyn!**

Ym mis Ionawr, ymddangosodd disgyblion blwyddyn 6 ar y rhaglen Pigo dy Drwyn ar S4C ac mae'n braf dweud mai Evan James oedd yn fuddugol yn erbyn Ysgol Mynydd Bychan. Daethant â tharian go arbennig yn ôl i'r ysgol gyda nhw. Llongyfarchiadau!

**Prynhawn Prosiectau**

Cafodd disgyblion o ddosbarthiadau Pwyll a Rhiannon a Blodeuwedd brynhawn gwych yn cyflwyno'u prosiectau am Gymru i rieni yn neuadd yr ysgol. Roedd y rhieni yn awyddus iawn i ddysgu am hanes a diwylliant ein gwlad.

**Y Cyngor Eco**

Hoffai'r cyngor eco ddiolch i bawb sydd wedi dod â'u cardiau Nadolig i'r ysgol i ni eu hailgylchu. Yn ogystal â hyn, mae Tesco wedi bod yn garedig iawn trwy roi'r addurniadau hyfryd a welwyd yn eu siopau i ni eu hailddefnyddio'r Nadolig nesaf. Diolch yn fawr.

**Rygbi'r Urdd**

Llongyfarchiadau i dîm rygbi'r ysgol ar eu llwyddiant yn nhwrnament rygbi'r Urdd. Allan o 20 tîm, Evan James oedd yn bedwerydd.

# Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) :

Mis Chwefror 2017:
5 - Oedfa gymun dan ofal y Parchedig Dafydd Andrew Jones
12 – Oedfa dan ofal y Parchedig Lona Roberts
19 – Oedfa dan ofal y Parchedig Ddr. R. Alun Evans
26 - Oedfa Gŵyl Ddewi

Mis Mawrth 2017:
1 - Oedfa ar ddydd Gwyl Dewi (9:30 a.m.)
5 - Oedfa dan ofal y Parchedig Hywel Wyn Richards
12 – Oedfa gymun dan ofal Delwyn Siôn
19 - Oedfa dan ofal y Parchedig Peter Dewi Richards
26 - Oedfa dan ofal y Parchedig John Gwilym Jones

---

Mae hi'n fore Gwener, yr 20fed o Ionawr 2017, arnaf yn ysgrifennu hyn o bwt i'r Tafod.

Dim byd yn arbennig yn y dyddiad yna medda chi – nac oes siwr, medda finnau - O, heblaw am rhyw ddigwyddiad bach ar draws Mor yr Iwerydd a all fod yn dyngedfennol i'n byd ni dros y pedair blynedd nesaf 'ma.

Ar ochr bellaf y Llyn Mawr, ers 1937, mae'r 20fed o Ionawr yn Ddydd Urddo (neu Sefydlu) ("Inauguration Day" a rhoi iddo ei deitl Americanaidd) a son yr ydwi wrth gwrs am urddo Donald J Trump yn 45ain Arlywydd Unol Daleithiau'r America. (a'i gyfaill Mike Pence yn Is-Arlywydd).

Dyma ddechrau swyddogol y tymor arlywyddol newydd, ac am hanner dydd union, yn adeilad y Capitol yn Washington DC y bydd hynny yn cael ei wireddu.

Bydd gorymdaith ar hyd Rhodfa Pennsylvania yn dilyn gyda'r Arlywydd newydd yn gwylio o'i gartref newydd yn y Tŷ Gwyn.

Yn ddiddorol ddigon petae yr 20fed o Ionawr yn syrthio ar y Sul, yna byddai'r Arlywydd newydd yn adrodd y Llw Arlywyddol mewn seremoni breifat ar y diwrnod hwnnw, a byddai'r holl ddathliadu yn dilyn y diwrnod canlynol.

Mae'r 20fed o Ionawr hefyd, ym myd hen seryddiaeth ac, yn fwy penodol, astroleg (a'r Sidydd), yn dynodi dydd cwsb ("cusp day") rhwng mis yr "Afr" (Capricorn) a mis y "Dyfrwr" (Aquarius).

Llinell ddychmygol sy'n rhannu'r ddau arwydd, a phetai'r haul yn digwydd croesi'r llinell hon ar enedigaeth rhywun, dywedid bod yr unigolyn hwnnw wedi ei "eni ar y cwsb" ("born on the cusp"), a bod ei fywyd o'r herwydd yn cael ei ddylanwadu gan nodweddion y ddau arwydd.

Mae'r 20fed o Ionawr hefyd yn ddydd gŵyl un o Esgobion Rhufain, Fabian [Flavian] (c. 200 – 250 O.C.), a ddaeth i enwogrwydd oherwydd y modd y'i etholwyd, a hynny wrth i golomen lanio ar ei ben fel arwydd bod yr Ysbryd Glan wedi ei ddewis i swyddogaeth fel y Pab nesaf.

Mae'n debyg fod ei gyfnod fel Pab wedi ei nodweddu gan gysylltiadau cyfeillgar rhyngddo a llywodraeth Rufeinig y dydd, wedi cyfanu rhwyg yn yr eglwys yn Rhufain, ac wedi anfon cenhadon, saith ohonynt, i Gal. Fe'i merthyrwyd yn ystod erledigaeth Decian o Gristnogion yn Rhufain.

Wn i ddim a fydd 'na arwyddocad i ddyrchafu Donald Trump yn Arlywydd ar ddydd cwsb;

Wn i ddim a fydd na ddeuoliaeth yn perthyn i'w arlywyddiaeth;

Wn i ddim a laniodd colomen ar ei ben yn ystod yr ymgyrch arlywyddol;

Gobeithio'r nefoedd 'na fydd yn ferthyr cyn diwedd ei dymor.

Dyhead cyn-weinidog Bethlehem, y Parchedig T J Davies, mewn myfyrdod dan y teitl "Nadolig" oedd am i ni:-

*"Chwilio am sens yng nghanol y nonsens;*
*Chwilio am bwyll yng nghanol y gorffwylledd;*
*Chwilio am oleuni yng nghanol y tywyllwch;*
*…*
*Chwilio am gydwybod yng nghanol y goleuadau;*
*Chwilio am dangnef yng nghanol y dadwrdd;*
*Chwilio am heddwch yng nghanol yr helynt;…"*

Adeiladu muriau ydi bwriad Trump yn ol ei ddatganiadau, ond "Croesi Muriau" yw themau Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol yr wythnos hon.

*"Cydnabyddwn gerbron Duw ein bod wedi methu bod yn feini byw iddo a'n bod wedi adeiladu muriau i'n gwahanu oddiwrth eraill."*

Rhestrir deuddeg maen tramgwydd fel a ganlyn:-

*"Diffyg cariad; casineb a dirmyg; camgyhuddo; gwahaniaethu; erledigaeth; diffyg cyfathrebu; anoddefgarwch; rhyfeloedd crefyddol a gwrthdrawiadau; ymraniadau; camddefnyddio grym; arwahanrwydd; balchder."*

*"Helpa ni i oresgyn yr holl furiau sy'n ein gwahanu…a thynned ymaith ohonom ein calon garreg a rhoi i ni galon o gnawd."*

---

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.bethlehem.cymru Ymwelwch yn gyson a'r safle i chwi gael y Newyddion diweddaraf am hynt a helynt yr eglwys a'i phobl.

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter). Dilynwch ni ar @gwebethlehem

# Siop y Felin

Cychwynwyd Siop y Felin, Yr Eglwys Newydd, gan Mary Buttle a'i cynorthwywyr, Jane a Chris, 21 mlynedd yn ôl. Mae wedi bod yn fan cyfarfod i nifer o drigolion yr ardal wrth iddynt chwilota am lyfrau a chardiau. Bu Mary yn gefnogol iawn i Tafod Elái ac yn annog trigolion y ddinas i'w ddarllen. Diolch am gadw faner y Gymraeg yn y pentref.

Nawr mae Beth Jones wedi cymryd drosodd yr awenau ac mae bwrlwm newydd yn y siop.

# O labordy i siop lyfrau

Beth Jones yw perchennog newydd Siop y Felin yn Heol Merthyr, yr Eglwys Newydd. 'Dwi'n dod i arfer â'r gwaith,' meddai.

Cafodd Beth, sy'n byw gyda'i theulu yn yr Eglwys Newydd, ei geni yn Y Barri ac aeth i Ysgol Sant Baruc, yr unig ysgol gynradd Gymraeg yn y dre ar y pryd. Wedyn bob bore am ddeg munud i wyth roedd hi'n dala'r bws i Ysgol Gyfun Glantaf yng Nghaerdydd. 'Yn amal, ro'dd 'y nghwallt i'n wlyb rôl bod yn nofio.'

Ym Mhrifysgol Caerdydd fe gafodd radd mewn Cemeg cyn cael swydd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd ger Maesteg, yr un gynta i wasanaethu bwrdeistref sirol Pen-y-bont. Agorodd yn 2008.

'Ro'n i wrth fy modd yn dysgu ond ddim yn siwr a fydde'r egni 'da fi rôl ugen mlynedd arall,' meddai. 'Hefyd ro'dd y plant gartre'n fishi iawn yn y nos.

'Ma' hwn yn newid mawr, cerdded i'r gwaith bob dydd, bod yn rhan o'r pentre. Dwi wedi lico'r siop erio'd ac wedi galw mewn ers pan o'dd y plant yn fach.'

Beth yw'r llyfrau neu gylchronau mwya poblogaidd ar hyn o bryd? 'Llyfre am hanes tîm pêl-droed Cymru yn Ewrop, gan gynnwys Merci Cymru, casgliad o ysgrife a llunie ma' Tim Hartley wedi 'u golygu.'

Dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at glywed syniadau pawb am y ffordd ymlaen. 'Dwi ishe rhoi stamp 'yn hunan ar y siop ond bydd y came'n fach wrth ddod i wbod beth sy angen.

'Y nod fydd mwy o ddigwyddiade, er enghraifft bydd y sylwebydd rygbi Phil Steele yn llofnodi 'i lyfyr ar fore gêm Cymru v Lloegr, am chwarter i ddeg ar Chwefror 11. Uchelgais arall yw datblygu'r wefan a chreu cyfri Twitter.'

Pob lwc i Beth ar ddechrau menter newydd.

Yr oriau agor yw 9-5 ond 9-1 bob dydd Mercher a 9-2 bob dydd Sadwrn.

Martin Huws

# tafod elái

**GOLYGYDD**
**Penri Williams**
**029 20890040**

**HYSBYSEBION**
**David Knight 029 20891353**

**CYHOEDDUSRWYDD**
**Colin Williams**
**029 20890979**

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mawrth
i gyrraedd erbyn
2 Mawrth 2017

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafelai.com**

*Argraffwyr:*
**Gwasg Morgannwg**
**Castell Nedd SA10 7DR**
**Ffôn: 01792 815152**

CYMRAEG
*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

## Andrew Reeves

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**



## CLWB Y DWRLYN

**Rifiw**
**23 Chwefror 8yh**
**Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch**

**Cinio Gŵyl Dewi**
**5 Mawrth 12:30**
**Clwb Golff Creigiau**
Manylion: 029 20890040

## MERCHED Y WAWR
**Tonysguboriau**

**Chwefror 15fed**

**Eifion Glyn**
**Gohebydd Tramor**

yng Nghanolfan Tonysguboriau

Rhagor o fanylion:
01443 202093 / 01443 203729

**Cymdeithas Gymraeg Llantrisant**

**Cinio Gŵyl Ddewi**
**Gwr Gwadd – Eifion Price**

**Nos Wener, 3 Mawrth**
**7.00 ar gyfer 7.30yh**
Yng Nghlwb Golff Creigiau
Manylion pellach: 01443 218077

## MERCHED Y WAWR
*Cangen y Garth*

Sgwrs ddifyr gan
**Elenid Jones**
am ei thaith ddiweddara i
**Madagascar!**
Croeso cynnes i bawb!
8yh Nos Fercher 15 Chwefror
yn Y Ganolfan Efail Isaf

**Ffoniwch am wybodaeth bellach**
**Manylion: 029 20890979**

**Bore Coffi i'r dysgwyr**
**yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob dydd Gwener am 11 y bore. Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.**

# GILFACH GOCH

*Gohebydd Lleol:*
*Betsi Griffiths*

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2017**
Dewch i Gapel Moriah ar Fawrth 1af 6.30 yr hwyr ar gyfer gwasanaeth canu cymunedol i ddathlu dydd Gŵyl Dewi. Byddwn yn canu emynau adnabyddus Cymraeg. Fe fydd yr achlysur dan ofal y Parchedig Rachel Wheeler - gyda'r casgliad tuag at Gronfa'r Eisteddfod.

**Newyddion da**
Braf cael adrodd fod Mr Billie Phillips gartref ar ôl cyfnod hir yn yr ysbyty. Brysiwch wella Billie – mae'r ganolfan dydd yn y Stryd Fawr ac aelodau Moriah a Bethel yn gweld eich eisiau.

## Merched y Wawr

Nos Wener yr 20fed o Ionawr daeth y Dr Wynne Davies i'n hannerch yn y Ganolfan, Efail Isaf fel rhan o galendr Cadwgan. Noson hynod ddifyr. Mae hanes Dr Wynne mor ddiddorol. Ei ddyddiau cynnar yng Ngheredigion - ardal Tal-y-bont. Hanes ei deulu disglair.

Bu'n olrhain ei gariad angerddol at geffylau - y merlod a'r Cobiau Cymreig hardd. Cawsom hanes dyddiau cynnar bridfa Ceulan. Ceulan bellach yw'r enw ar ei gartref ym Meisgyn. Hanes ei yrfa academaidd. Ambell stori hynod ddigri o'i ddyddiau'n athro Cemeg ifanc yn y Porth. Bu'n ddarlithydd yng Nghaerdydd. Ei deithiau dros y byd yn beirniadu mewn sioeau o fri. Yr holl lyfrau mae wedi eu cyhoeddi. Dros hanner cant o flynyddoedd o gyfrannu erthygau'n rheolaidd i'r *Horse and Hound*! Mae'r dyn wir yn *legend*! Diolch o galon am ddod atom i rannu'r perlau! (Llun tudalen 4)

## SBORT SADWRN

Chwaraeon

**Dechrau 28/01/2017**

Edrych am rywbeth i'ch plentyn wneud ar fore Sadwrn? Beth am ddod a nhw i'n clwb 'Sbort Sadwrn' i fwynhau awr a hanner o weithgareddau?
**Cyfle i drio: rygbi, pêl-droed, athletau, criced, pêl-rwyd, hoci, tenis.**
**Oedran 4 - 11**
**9.30 – 11.00 Neuadd Chwaraeon, Ysgol Llanhari**
Sesiwn cyntaf am ddim, wedyn £10 am 5 wythnos.
Sesiynau yn cael eu rhedeg drwy gyfrwng y Gymraeg
**Cysylltwch â fi i archebu lle i'ch plentyn jessstacey@urdd.org**
**07917 270 301**

# PONTYPRIDD

*Gohebydd Lleol:*
*Jayne Rees*

**Gwellhad Buan**
Mae Glynis Evans , Lanwood Road wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Brysia wella. Rydym yn edrych ymlaen at dy groesawu nôl yng nghyfarfodydd Merched y Wawr.

**Merched y Wawr**
Nos Iau, Chwefror, 9fed am 7.30p.m. fe fydd yr awdures Dana Edwards yn dod i drafod ei nofel 'Pam?'

Yn dilyn arfer sawl blwyddyn erbyn hyn fe fydd y gangen yn cynnal cyngerdd arbennig i ddathlu Gŵyl Ddewi. Nos Iau, Mawrth 2il am 7.30 fe fydd myfyrwyr dawnus Coleg Cerdd a Drama, Caerdydd yn diddanu ar eu telynau yn Eglwys St. Catrin, Pontypridd. £8 (£5 gostyngiad).
Fe fydd elw'r noson yn mynd at Bwyllgor Apêl Pontypridd Eisteddfod Penybont, Taf ac Elai.

Rydym fel cangen yn danfon ein dymuniadau da at un o'n haelodau, Siân Cadifor sy'n derbyn triniaeth.

**Clwb Llyfrau**
Byddwn yn cwrdd nos Fawrth, Chwefror 14eg am 8.00. Dwy nofel Saesneg sy dan sylw'r mis yma, sef 'Lie with me' gan Sabine Durant a 'Little Deaths' gan Emma Flint. Nofelau cyfoes cyffrous- mae'n debyg!

Digwyddiad arbennig ym mis Mawrth yw recordio dwy raglen o 'Talwrn y Beirdd'. Mae Radio Cymru yn dod i Glwb y Bont ar wahoddiad y Clwb Llyfrau. Mae croeso cynnes i bawb i ddod i'r noson (mynediad am ddim!) Felly cofiwch am nos Fawrth, Mawrth 14eg am 7.00p.m.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Jayne Rees

**Clwb y Bont**
Diolch i bawb ddaeth i'r Parti Nadolig a phrynu raffl! Mae'r Pwyllgor yn awyddus i'ch denu draw am beint a dod i amrywiaeth o ddigwyddiadau. Mae'r bwrdd pŵl am ddim bob nos Fawrth. Cyfle da i ymarfer eich sgiliau pŵl

Mae modd dilyn holl ddigwyddiadau a newyddion y Clwb wrth fynd ar dudalen Facebook y Clwb a'r wefan.

**Newyddion trist**
Ym mis Ionawr bu farw Jan Morris, Penydarren Close, Graigwen. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i phlant James a Hannah, ei wraig a'i merch Bethan. Buodd y plant yn ddisgyblion yn Ysgol Pont Sïon Norton a Rhydfelen.

**Swyddfa Newydd**
Fe fydd Plaid Cymru Rhondda Cynon Taf yn agor swyddfa newydd dros dro yn 17, Heol Gelliwastad , Pontypridd. Fe ddaw Leanne Wood i'w hagor yn swyddogol am 2.30 p.m. ar y 10 fed o Chwefror. Dewch yn llu!

Os hoffech wirfoddoli yn y swyddfa sydd yn mynd fod ar agor bob Dydd Mercher, Gwener a Sadwrn yna cysylltwch â PlaidRCT@gmail.com

**Pwyllgor Apêl Steddfod yr Urdd**
Diolch i bawb ddaeth i gefnogi'r cwis.
Byddwn yn mwynhau gwledda a chodi arian unwaith eto yn Mwyty'r Juboraj nos Lun, Chwefror 6ed am 7.00. Croeso cynnes i bawb- pryd 2 gwrs am £ 20 - gyda hanner yr arian yn mynd at y gronfa apêl.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Margaret Francis 07855234017

**Mwy o Chwain i Bontypridd!**
Nos Wener, Mawrth 31ain noson arbennig i godi arian i Ysbyty Felindre ac Eisteddfod yr Urdd yng Nghlwb y Bont am 7.30.Yn ogystal â'r grŵp newydd Y Chwain, buodd yn chwarae yn y Clwb Rygbi ychydig fisoedd yn ôl, fe fydd yr amryddawn Delwyn Siôn a grŵp o gerddorion lleol, Morfa yn ymddangos.

Rhowch y digwyddiad yma yn eich dyddiadur!

## Cwmni Theatr Bara Caws

Drama newydd sbon gan un o ddramodwyr enwocaf Cymru, Siôn Eirian, yw *YFORY,* sy'n cynnig golwg heriol ac arloesol ar faes cyfnewidiol gwleidyddiaeth Cymru, Prydain, a'r byd ehangach, maes sy'n prysur newid.
***YFORY***
*"Wy'n gwbod bo ti'n diall. Pam ma' rhaid fi neud hyn…"*
Ym myd gwleidyddiaeth gall argyfwng annisgwyl fod yn gyfle i drio rhywbeth gwahanol na ellid ei ystyried dan amgylchiadau arferol, ac yn dilyn lecsiwn 2016 mae'n greisis yn y Cynulliad. Mae Gwyn Davies, arweinydd newydd Plaid Cymru, a'i bartner hudolus, Ellie, am fanteisio ar chwalfa'r hen drefn. Ond un noson dyngedfennol, daw dau ymwelydd i'r fflat yn y Bae, a'r ddau'n fygythiad annisgwyl i ddyfodol gwleidyddol a phersonol Gwyn ac Ellie.
*Cast:* ***Aled Bidder, Rhodri Evan, Caryl Morgan, Dewi Rhys Williams***
*Cyfarwyddwr:* ***Betsan Llwyd***

Oherwydd natur echblyg y ddrama, rydym yn awgrymu oedran 14+.
Theatr y Sherman, **Caerdydd**: 1-3 Mawrth 7.30pm


University of South Wales
Prifysgol De Cymru

## Tiwtor Cymraeg i Oedolion

Cyflog: £28,452 - £32,958 y flwyddyn pro rata, telir fesul yr awr

Mae Cymraeg i Oedolion Morgannwg (Prifysgol De Cymru) yn darparu cyrsiau Cymraeg i Oedolion ar bob lefel gan gynnwys cyrsiau wythnosol, dwys, bloc a phreswyl, Cymraeg i'r Teulu a chyrsiau gweithle. Mae Morgannwg yn chwilio am diwtoriaid i ddysgu gyda'r nos yn benodol, ac i ymuno â thîm o diwtoriaid talentog a brwdfrydig. Cynhelir y dosbarthiadau mewn lleoliadau amrywiol ar draws rhanbarth Penybont, RhCT a Merthyr.

Disgwylir i ddeiliaid y swydd weithio'n drefnus, meddu ar sgiliau rhyngbersonol a sgiliau technoleg gwybodaeth effeithiol a meddu ar gymhwyster dysgu neu gymhwyso o fewn 4 blynedd.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â catherine.stephens@decymru.ac.uk / 01443 483600.

DYDDIAD CAU: 31 MAWRTH 2017

jobs.southwales.ac.uk/vacancies

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE
GADARN O BLAID POBL ANABL

# Ysgol Dolau (Lluniau tudalen 13)

**Dathliadau'r Nadolig**
Mae'r ysgol wedi mwynhau dathlu'r Nadolig mewn amryw o ffyrdd:

Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ymweld â Siôn Corn ar eu tripiau i Rumble in the Jungle, Techniquest a'r Stadiwm Principality. Roedd y cyngherddau Nadolig yn rhagorol unwaith eto eleni - pob plentyn ar y llwyfan yn rhoi eu gorau yn actio a chanu - sêr y dyfodol ar y llwyfan!

Cynhaliwyd noson garolau o gwmpas y goeden lle wnaeth disgyblion cyfnod allweddol 2, rhieni a'r gymuned fwynhau canu carolau fel un côr.. Mwynheuodd Blwyddyn 6 fore yn eglwys Llanharan lle cymeron ran mewn gweithgareddau i ddeall beth yw gwir ystyr y Nadolig i ni gyd..

Cafodd y côr croeso cynnes yn y Senedd lle rhoddon adloniant i'r aelodau presennol a gwrando ar ddadl y dydd.

**Enillydd Cystadleuaeth Cerdyn Nadolig**
Llongyfarchiadau i Hollie Davies a enillodd cystadleuaeth cerdyn Nadolig a chynhelir gan Chris Elmore, Aelod Seneddol Ogwr. Cafodd cerdyn Hollie ei ddewis gan yr aelod ar draws y sir fel ei gerdyn swyddogol eleni – da iawn Hollie!

**Chwaraeon**
Aeth disgyblion blwyddyn 5 i ganolfan Llantrisant i gymryd rhan mewn sesiynau badminton a sboncen. Mwynheuodd y plant gael blas ar y chwaraeon yma yn ystod y bore a gobeithiwn weld rhai yn ymuno a'r clybiau lleol yn y dyfodol.

**Plant Mewn Angen**
Llongyfarchiadau i'r ysgol am godi dros £400 ar gyfer Plant Mewn Angen eleni. Trefnodd y cyngor ysgol cyfle i bob dosbarth chwarae 'Twister' i gefnogi'r elusen smotiog a chodi arian. Diolch yn fawr hefyd i Chloe a Georgia Bull am drefnu a gwerthu nwyddau Pudsey yn yr ysgol a chodi £350 ychwanegol. Rhagorol!

**Roald Dahl**
Cafodd blwyddyn 5 a 6 profiad gwych yng nghanolfan y Mileniwm wrth iddyn nhw ymweld â Byd Wondercrump Rhyfeddol Roald Dahl. Mwynhaodd y plant cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau hwylus a gwylio'r adloniant hefyd fel rhan o ddathliad canmlwyddiant Roald Dahl.

**Gala Nofio'r Urdd**
Da iawn i'r disgyblion a gystadlodd yn Gala Nofio'r Urdd - nifer o berfformiadau rhagorol a sawl safle ail. Llongyfarchiadau i'r grŵp blwyddyn 3 a 4 a fydd yn cystadlu yn y rownd nesaf - pob lwc!

**Criced**
Llongyfarchiadau i Luke Evans, Ioan Martin, Steffan Jones ac Alfie Cogbill am gael eu dewis i fod yn nhîm criced Morgannwg Ganol eleni.

**Gymnasteg**
Canlyniadau rhagorol i gymnastwyr Dolau wrth iddyn nhw gystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd. Daeth y ddau dîm yn 1af ac 2il gyda 1af hefyd i unigolyn Ieuan. Llongyfarchiadau i'r enillwyr i gyd a phob lwc i Ieuan ac aelodau'r tîm ddaeth yn gyntaf wrth iddyn nhw deithio i Aberystwyrth i gystadlu yn y rownd genedlaethol.

**Tymor y Panto**
Teithiodd plant Cyfnod Allweddol 2 i Abertawe i fwynhau panto Sleeping Beauty. Cawson hwyl a sbri trwy gydol y perfformiad gyda phlant Dolau ar lwyfan hefyd i ganu cân y gynulleidfa.

**Cynllun Ysgolion Creadigol**
Dechrau rhagorol i'r flwyddyn i ddisgyblion Dosbarth 5 a Class 8 wrth iddyn nhw gychwyn ar gynllun ysgolion creadigol. Roedd Dolau yn falch i groesawu'r storiwr Michael Harvey a'r actores Kate Elis Griffiths i weithio gyda'r plant yn ystod tymor y gwanwyn i greu a chyflwyno straeon ffug.

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail (Lluniau tudalen 16)

**Lleisiau Bach yn Galw Allan**
Mae prosiect 'Lleisiau Bach yn Galw Allan' ar y cyd â Phrifysgol Abertawe yn mynd o nerth i nerth. Mae'r disgyblion wedi dewis prosiect dyrys iawn sef 'Ydi rhieni yn defnyddio gormod ar eu ffonau symudol?' Gall plant ar draws Cymru gymryd rhan yn y prosiect drwy ateb cwestiynau ar wefan: <https://www.surveymonkey.co.uk/r/yggtonyrefail>

**Twrnament Rygbi'r Urdd**
Bu'r tîm rygbi yn cystadlu yn ddiweddar yn nhwrnament yr Urdd yn Nhrefforest. Cafodd pawb amser da. Diolch yn fawr i Mr Phillips a Mr Holland am hyfforddi'r tîm.

**Disgo Santes Dwynwen**
I ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen cynhaliwyd disgo i blant y Cyfnod Sylfaen a'r Adran Iau. Diolch yn fawr i'r staff am eu gwaith caled yn trefnu a goruchwylio'r noson. Bydd yr elw yn mynd tuag ag Eisteddfod yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elai.

**Clwb Garddio**
Mae'r clwb garddio yn rhan o brosiect ar y cyd rhwng Amgueddfa Genedlaethol Cymru a'r Edina Trust i weld effaith cynhesu byd eang ar dyfiant bylbiau. Plannwyd y bylbiau yn nhymor yr hydref ac mae'r disgyblion yn cofnodi tyfiant y bylbiau yn ogystal â thymheredd a glawiad yr ardal. Prosiect diddorol iawn!

**Gwyddonwyr y Dyfodol**
Mae disgyblion bl 5 a 6 wedi ymateb yn wych i sialens STEM yn ystod eu prosiect gwyddoniaeth. Yr her oedd adeiladu goleudy gyda'r golau yn gweithio, cyn daled a phosib (o 3 tudalen o bapur newydd, tâp selo a chylched drydan)) a oedd hefyd yn gallu gwrthsefyll corwynt. Roedd y plant wedi meddwl yn greadigol a beirniadol ac wedi cyfathrebu'n effeithiol i gyflawni'r her. Da iawn nhw!

# Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant (Lluniau tudalen 13)

**Chwaraeon**
Roedd y 19eg o Ionawr yn ddiwrnod prysur iawn i ddau griw o fechgyn a fu'n cystadlu mewn dwy gystadleuaeth – aeth un criw i gystadlu yng nhwrnameint pêl-droed New Directions a'r criw arall i gystadlu yng nghystadleuaeth rygbi'r Urdd.
Llongyfarchiadau mawr hefyd i dair o ferched a fu'n llwyddiannus yng nghystadleuaeth gymnasteg yr Urdd yn Ysgol Gyfun Llanhari'n ddiweddar. Fe enillodd Carys Davies y drydydd wobr ac fe gipiodd Olivia Williams a Lily Hopkins y wobr gyntaf – bydd y ddwy ohonynt yn cystadlu yn y rownd derfynol yn Aberystwyth fis nesaf.

**Diawled Caerdydd**
Mae disgyblion Blwyddyn 5 yn ffodus iawn y tymor hwn gan fod Diawled Caerdydd yn dod i gynnal gweithdai gyda nhw ynglyn â phwysigrwydd addysg yn y byd chwaraeon.

**NSPCC**
Y tymor hwn, mi fyddwn yn codi arian ar gyfer elusen yr NSPCC. Fe ddaeth Sara Phillips atom i gynnal gwasanaeth arbennig ar y 24ain o Ionawr, er mwyn lansio'r apêl.

**Y Cyfnod Sylfaen**
Cyn y Nadolig, fe gafodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen lawer o hwyl wrth wylio pantomeim Martyn Geraint yn neuadd yr ysgol. Fe ddaeth ymwelwyr eraill i'r ysgol i'w diddanu hefyd, sef casgliad o dylluanod! Roedd yr ymweliad yn rhan o waith thema'r tymor, sef Dydd a Nos.

**Bore Coffi**
Ar Ragfyr y 14eg, fe gynhaliwyd bore coffi a Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd yn yr ysgol, er mwyn codi arian tuag at apêl Eisteddfod yr Urdd. Llwyddwyd i godi £356 – diolch i bawb am gefnogi.

**Siwmperi Nadolig**
Ar y diwrnod olaf cyn gwyliau'r Nadolig, fe ddaeth yr holl ddisgyblion a staff i'r ysgol yn gwisgo'u siwmperi Nadolig. O ganlyniad codwyd £200 tuag at elusen Achub y Plant. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

**Babi Newydd**
Llongyfarchiadau mawr i Mr Siôn Williams a'i wraig Beth ar enedigaeth merch fach – Anni Llŷr – wythnos cyn y Nadolig.

**Y Clwb Ffotograffiaeth**
Dyma luniau o aelodau brwdfrydig y Clwb Ffotograffiaeth sydd wedi bod yn tynnu lluniau macro yn yr ardd yn ogystal â rhai mwy haniaethol yn y dosbarth. Diolch i Miss Jones a Mrs Flower am roi o'u hamser.

**Cylch Llyfryddol Caerdydd**
*Gwener, 17 Chwefror 2017*
**Sgwrs gan Frank Olding**
am ei lyfr - Archaeoleg Ucheldir Gwent
yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival,
Safle Rhodfa Colum, Prifysgol
Caerdydd, CF10 3EU.

## Ysgol Dolau (Tudalen 12)



Côr yn y Senedd




Diogelwch ffordd



Gweithgareddau Roald Dahl

Hollie Davies





Stadiwm y Principality

## Ysgol Llantrisant (Tudlaen 12)



Olivia Williams a Lily Hopkins enillwyr gwobr gyntaf Gymnasteg yr Urdd



Y Clwb Ffotograffiaeth



Carys Davies enillydd y drydedd wobr



Y Siwmperi Nadolig

## Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

**Clwb dawns**

Diolch yn fawr i ti Ellie Mae, cyn-ddisgybl Castellau am ddod i hyfforddi yn ein clwb dawns. Braf dy groesawu a chael dy gwmni.



**Achub y plant**

Ar ddiwrnod olaf y tymor, gwisgodd bawb eu siwmperi Nadolig a chodwyd £130 i Achub y plant. Dyma'r ddau blentyn hynaf yr ysgol yn cyflwyno'r siec yn ein gwasanaeth ysgol.



**Clwb hoci**

Diolch Amy o'r Urdd am gynnal clwb hoci a datblygu sgiliau pêl i blant ym mlwyddyn 1 a 2.



**Hyfforddiant Cymorth Cyntaf**

Dechreuodd tymor y Gwanwyn gyda hyfforddiant mewn swydd ar gymorth cyntaf. Derbyniodd yr athrawon cymorth ar blentyn yn tagu, gosod person mewn ystum adferol, sut i drin llosgiad ac adfywiad. Diolch i Curiad1stAid1 am y gweithdy ymarferol.



# YSGOL LLANHARI

**Gweithgareddau'r Nadolig**

Bu wythnosau olaf Tymor y Nadolig yn brysur iawn ar draws yr ysgol. Cynhaliwyd sioeau Nadolig rhagorol yn yr adran gynradd a hyfryd oedd dathlu gyda rhieni a ffrindiau unwaith eto yn Eglwys Gatholig Meisgyn yn y gwasanaeth Nadolig ysgol gyfan. Dyma'r tro cyntaf i ddisgyblion yr adran gynradd i gymryd rhan yn y gwasanaeth ac roedd yn noson arbennig iawn wrth ddathlu'r Nadolig yng nghwmni yr holl ystod oedran. Cafwyd cyfraniadau hyfryd a safonol gan bawb. Diolch i Ffrindiau Llanhari am drefnu lluniaeth ar diwedd y noson. Bu disgyblion yr adran gynradd ar deithiau hefyd i Gaerdydd ac wrth gwrs bu merched y gegin yn paratoi gwledd o ginio Nadolig i bawb! Bu disgyblion yr adran uwchradd yn brysur yn creu bocsys Nadolig i'w rhannu â phobl sy'n llai ffodus ac felly braf oedd trosglwyddo yr anrhegion hynny i'r elusen cyn y gwyliau.









**Elusen RR81**

Yn dilyn colli Rhys Rubery, disgybl o flwyddyn 11, mewn damwain yr Haf diwethaf, mae teulu Rhys wedi sefydlu elusen er cof amdano. Cafwyd cyfle yn ystod mis Rhagfyr i dalu teyrnged i Rhys mewn gwasanaeth coffa ac wedyn mewn gêm hoci rhwng y staff a disgyblion y chweched a disgyblion bl8. Yna ar yr 8fed o Ionawr, cyflwynodd y teulu dŷ Haf i'r ysgol gydag arian a godwyd gan yr elusen er cof amdano. Y nod yw defnyddio'r adnodd fel ystafell ddysgu awyr agored ac y mae hefyd yn encil dawel i'r disgyblion. Diolch o galon i'r teulu ac elusen am eu haelioni.



**Llwyddiant Caitlin**



Llongyfarchiadau mawr i Caitlin Rees ar lwyddiant pellach ym myd rygbi. Yn ddiweddar chwaraeoedd ei gêm gyntaf dros Gleision Caerdydd.

**Dechrau da i'r tymor**

Mae merched y timau pêl-rwyd iau wedi profi llwyddiant yn ystod wythnosau cyntaf Tymor y Pasg. Yn ddiweddar roedd timau bl7 & 8 yn fuddugol yn erbyn Cardinal Newman gyda'r ddau dîm yn sgorio 15 gôl! Daliwch ati ferched!



**Taith i Gastell Henllys**

Teithiodd disgyblion Cnocell y Coed nôl mewn hanes ganol mis Ionawr wrth fynd ar daith i'r Gorllewin i Gastell Henllys. Cafwyd diwrnod bythgofiadwy yn olrhain hanes y Celtiaid a phrofiadau gwych!



**Siarad Cyhoeddus y Rotari**

Llongyfarchiadau i Mali, Taliesin a Amelia o flwyddyn 8 ar eu llwyddiant yn Nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y Rotari. Dyma'r tro cyntaf i ddisgyblion iau o Lanhari gystadlu ers rhai blynyddoedd felly rydym yn ymfalchio yn eu llwyddiant.



Llongyfarchiadau arbennig i Taliesin am fod yn fuddugol fel y Cadeirydd gorau. Diolch i Mrs Carys Lewis am hyfforddi ac ymlaen â chi i'r rownd nesaf! Pob lwc!

**Gwobr Parchu Hawliau Plant Unicef**

Mae'r ysgol yn gweithio tuag at ennill Gwobr Ysgol sy'n parchu hawliau Plant ers mis Medi. Llwyddwyd yn y cam gyntaf ac rydym nawr yn brysur yn gwreiddio yr egwyddorion ar draws yr ysgol. Aelodau o flwyddyn 9 yw'r pwyllgor llywio ac maent wedi bod yn brysur yn penderfynu ar flaenoriaethau'r ysgol o ran hawliau plant ac wedi creu hysbysfwrdd newydd sy'n amlygu'r hawliau. Mae'r disgyblion wedi penderfynu ar hawl y mis gan nodi mai hawl plant i gael addysg yw ffocws mis Ionawr. Yn sgil eu gwaith, mae tri o'r disgyblion wedi eu gwahodd i gymryd rhan mewn webinar gyda Dr Sally Holland Comisynydd Plant Cymru, ar ddiwedd mis Ionawr.

**Teithiau cyffrous**

Ar ddiwedd mis Tachwedd ymwelodd disgyblion Gwion Gwiwer a Lleucu Llwynog â Chastell Caerdydd tra mai troi am y Gorllewin wnaeth disgyblion blwyddyn 8 wrth iddynt deithio i Langrannog a threulio pedwar diwrnod oer ond llawn hwyl yn mwynhau gweithgraeddau'r gwersyll. Diolch i'r athrawon am roi o'u hamser ar y cwrs preswyl hwn.



**Llwyddiant Eisteddfodol eto i lys Trisant**

Gan y byddwn yn brysur yn paratoi at Eisteddfod yr Urdd 2017, penderfynwyd eleni i gynnal Eisteddfod yr ysgol ar ddiwedd Tymor y Nadolig. Cafwyd diwrnod gwych o gystadlu brwd a llys Trisant a fu'n fuddugol unwaith eto eleni. Llongyfarchiadau gwresog iddyn nhw a diolch o galon i'r beirniaid sef Mr Peter Griffiths, Miss Elaine Evans, Ms Angharad Jones a Mr Gwyndaf Lewis. Byddwn yn cynnal Eisteddfod fach ar Fawrth y cyntaf lle byddwn yn gwobrwyo Bardd y Gadair ac amrwyiol enillwyr mewn cystadlaethau gwaith cartref. Cyfle i Hari ac Aran i dalu'r pwyth yn ôl efallai?!



# Ysgol Gyfun Garth Olwg

**Cwpan Ardal Pontypridd**



Ar ôl arhosiad enfawr, roedd y ddau dîm yn barod. Cerddodd y bechgyn tuag at Lanhari a dechreuodd y gêm. Roedd pawb yn nerfus. Roeddem yn taclo'n galed ac yn ennill ciciau cosb. Tapiodd Ioan y bêl a hedfanodd gan sgorio cais ymosodol. Methodd Harry'r gic ond roedd e'n ddigon i ni fynd mewn i'r ail hanner yn ennill. Wedi geiriau cyflym hanner amser derbynion ni'r bêl a buom yn brwydro am oesoedd. Ar ôl trio'n galed, cawsom ein gwobrwyo wrth i Kian lwyddo i sgorio dau gais. Roedd y bechgyn wedi blino'n lan ond fe wnaethom barhau i frwydro. Rhedodd asgellwr Llanhari lawr yr asgell ond llwyddodd Mabon i daclo'r asgellwr a chwythodd y chwiban. Garth Olwg oedd y pencampwyr. Garth Olwg 17 - Llanhari 5

Gan Owen Conquer, Blwyddyn 7.



Llongyfarchiadau hefyd i flwyddyn 8 ar gyrraedd y rownd derfynol.

**Ymweliad Rufus Mufasa**



Dydd Gwener y 9fed o Ragfyr ymwelodd Rufus Mufasa, rapydd a chantores fyd enwog â'r ysgol i gynnal gweithdy gyda Blwyddyn 9 a 10. Crëwyd pum darn o farddoniaeth gyda chymorth Rufus yn seiliedig ar luniau pen agored a gwledydd gwahanol. Ysgrifennodd fy ngrŵp i ddarn ar ddiwylliant Cuba a'r grŵp arall ar Jamaica. Yna, rapiodd Rufus ddarnau Cymraeg a Saesneg i guriad ei throed yn gyflym, roedd hi'n anhygoel! Ysbrydolodd ni i chwarae gyda geiriau a'u troi mewn i rap neu gerdd. Byrfyfyriodd unigolion rap Gymraeg ar y diwedd gan ddefnyddio'r holl dechnegau ddysgodd Rufus i ni. Roedd y diwrnod yn wych; dysgodd bawb ddigon am gerddi a rapio. Hoffwn ddiolch ar ran pawb i Rufus a Mrs Llwyd am ei gwahodd a gwneud y diwrnod yn werth chweil! Gan Llew Jones, Blwyddyn 10.

**Llwyddiant Pêl-droed**



Mae Carys Minton (Capten), Lara Watts, Nia Williams, Jenna Hill (Blwyddyn 8) a Megan Bowen, (Blwyddyn 7) wedi eu dewis i gynrychioli carfan pêl-droed merched 2016/17 Sir Forgannwg. Mae Carys a Lara hefyd wedi cael eu dewis ar gyfer Canolfan Perfformiad Merched De Cymru, gyda Carys yn cael ei dewis ar gyfer carfan De Rhanbarth Cymru yn ogystal. Mae'r disgyblion hefyd yn rhan o dîm pêl-droed merched Llanilltud dan 13 oed. Bu'r merched yn chwarae dros Sir Forgannwg yng nghanol y mis ac roedd yn gêm gyffrous iawn a wnaeth orffen yn 0-0 yn erbyn Caerdydd.
Da iawn!

**Athletau**



Llongyfarchiadau i Harri Wheeler-Sexton, Blwyddyn 11 a Daniel John, Blwyddyn 10 a gystadlodd yng Nghystadlaethau Athletau Prydeinig yn Iwerddon ym mis Rhagfyr.

**Ar ei feic**



Cystadlodd Rhys dros y Deyrnas Unedig mewn cystadleuaeth Ryngwladol yn Yr Iseldiroedd ar ddechrau Ionawr.
Enillodd Rhys dair cystadleuaeth a daeth yn 2il mewn dau arall. Da iawn ti!

**Taith yr Adran Gelf a Ffotograffiaeth i Ferlin**

Fel rhan o'r adran Gelf a Ffotograffiaeth, aeth y chweched dosbarth ac aelodau Blwyddyn 10 i Ferlin. Roedd hi'n daith hanesyddol iawn a dysgom lawer am hanes yr Almaen. Fe wnaeth y disgyblion fwynhau ymweld â'r atyniadau twristiaid megis y Reichstad, y tŵr teledu a chofeb yr Holocost. Yn ogystal â hyn, aethom ar daith dywys o Wal Berlin. Dywedodd un o'r disgyblion, "Sioc oedd clywed am brofiadau trist y teuluoedd a gafodd eu gwahanu o ganlyniad i'r wal". Cafon ni gyfleoedd unigryw i dynnu lluniau anhygoel o'r ddinas yn yr eira tra'n amddiffyn ein hunain rhag yr oerni! Hefyd cafon ni gyfle i brofi a gweld celf y ddinas mewn amgueddfa ac yn y galeri Ochr Ddwyreiniol. Roedd y gwaith celf yma'n cael ei weld tu allan ar Wal Berlin. Roedd yn anhygoel i weld ac ysbrydolodd hyn waith y disgyblion celf. Roedd hi'n daith mor ddiddorol, lle ddysgom nifer o bethau am gelf, hanes a diwylliant y wlad. Gwnaeth yr holl ddisgyblion fwynhau'r profiad unigryw ac rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle i fynd i le



mor anhygoel. Hoffwn ddiolch ar ran pawb i'r athrawon am drefnu ac rydym yn edrych 'mlaen at ein taith nesaf, falle rhywle twymach y tro nesaf!

Gan Layla Powell, Blwyddyn 12

**Chwarae dros y Gleision**

Llongyfarchiadau i Carl Blacker a Gruff Lloyd, Blwyddyn 13 am gael eu dewis i garfan y Gleision dan 18. Maent wedi chwarae sawl gêm dros y clwb yn barod a gwnaethant ennill y Scarlets 31 - 19 ar y 24ain o Ionawr.





**Chwarae pêl-droed dros Gymru**

Llongyfarchiadau i Sam Richards, Blwyddyn 12 sydd yn chwarae pêl-droed i dîm Ysgolion Cymru o dan 18 a Thîm Cymru o dan 18. Maent yn chwarae yn yr Almaen fis nesaf felly pob lwc iddo ef a'r tîm.

**Campws Garth Olwg**

Gair gan y Prifathro: Mae cryn sylw wedi bod i'r ffaith bod cytundeb PFI yr ysgol yn dod i ben ym mis Ionawr 2017. Mae prosesau bellach yn eu lle er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn wrth i ni a'r Awdurdod Lleol gymryd gofal am y campws. Rydym yn llwyr hyderus na fydd y disgyblion yn gweld unrhyw newid a bydd y campws yn gweithredu fel ag y mae ar hyn o bryd. Ymlaen Campws Garth Olwg Ymlaen!

**Casglu Nwyddau ar Gyfer y Digartref**

Cyn y Nadolig, bu disgyblion Blwyddyn 9 a 10 yn casglu nwyddau ar gyfer y digartref. Cafodd rhai o'n disgyblion gyfle i fynd â'r rhoddion i'r man casglu'n Llantrisant er mwyn gweld y gwaith oedd yn cael ei wneud. Roedd yr elusen Llamau yn ddiolchgar iawn i'r disgyblion am eu rhoddion.

**Llwyddiant Nofio**

Llongyfarchiadau enfawr i Carwyn Salmon, Blwyddyn 8 am ddod yn fuddugol yn y dull amrywiol ac am ddod yn 2il yn y dull broga yng Ngala nofio cenedlaethol yr Urdd. Tipyn o gamp yw ennill dros Gymru gyfan. Da iawn ti!



## Hanner Tymor - Llechen Lan



Bydd Clwb Rygbi Pontypridd yn wynebu ail hanner eu tymor yn Uwch-adran y Principality gan ddechrau o'r dechrau ac, fel pob clwb arall, gyda llechen lan o ran eu record a'u pwyntiau. Yn ôl strwythur newydd ddyfeisiwyd gan Undeb Rygbi Cymru, bydd yr uwch-adran yn awr yn rhannu yn ddwy isadran o wyth clwb yr un.

Wedi'r gemau chwaraewyd ar y 7fed o Ionawr y rhannwyd yr adran yn ddwy. Gyda record o ddeg buddugoliaeth o'u pymtheg gem, roedd Ponty wedi hawlio'r pumed safle yn y tabl, a'u lle ymysg yr wyth uchaf.

Aberafan oedd ar frig y tabl, a'r clybiau eraill yn yr hanner uchaf oedd Bedwas, Caerfyrddin, Glyn Ebwy, Rygbi Gogledd Cymru, Llanymddyfri a Merthyr.

Wrth i'r adran hollti bydd pob clwb yn awr yn cychwyn o'r cychwyn heb ddim pwyntiau, gyda'r holl ganlyniadau a'r pwyntiau blaenorol yn cael eu dileu - llechen lan wrth herio am goron yr Uwch-adran.

Mae'r sefyllfa yn un gymhleth, un sydd wedi cael ei barnu gan lawer a heb fawr o reswm nac esboniad amdani. Mae'r strwythur newydd hefyd wedi creu problemau difrifol i rai clybiau o ran eu hincwm a'u cyllideb.

Yn ystod y pum mis o'r tymor sy'n weddill rhwng Ionawr a Mai does gan Bontypridd ond tair gem adref, ac yn ystod misoedd Mawrth ac Ebrill does dim gemau i'w chwarae ar Heol Sardis. I glwb sy'n dibynnu ar eu torfeydd cartref i godi incwm, mae'r sefyllfa yn un drychinebus.



Gall Ponty o leiaf edrych ymlaen at rediad yn y Cwpan Cenedlaethol. Yn y rownd gyntaf chwaraewyd ddydd Sadwrn 28ain o Ionawr teithiodd Pontypridd i wynebu myfyrwyr Met Caerdydd. Roedd y gêm yn un ddigon cystadleuol, ond gyda pac Ponty yn dominyddu, aethant ymlaen i sgorio saith cais ac i ennill yn gyfforddus o 12pt i 43.

Am yr holl newyddion diweddaraf o Glwb Rygbi Pontypridd, galwch mewn i'r wefan: www.ponty.net - mae croeso i bawb!

## Ysgol Tonyrefail (Tudalen 12)



Y Tîm Rygbi



Clwb Garddio



Gwyddonwyr y Dyfodol




### Menter Caerdydd

**Gweithgareddau Hanner Tymor Chwefror**
**Digon o bethau cyffrous er mwyn cadw'r plantos yn hapus**

Nofio Dwys i ddechreuwyr - Rygbi gyda'r Gleision
Dawns - Gweithdy Serameg
Gymnasteg - Diwrnod Chwaraeon
Pobi Cacennau gyda Becws Haf - Offerynnau Sbwriel
Marchogaeth #2 - Diwrnod awyr agored
Hyfforddiant Pêl-droed merched
Pêl-droed 6 bob ochr i'r teulu

***Ewch ar y wefan i archebu lle : http://bit.ly/2d5hk4i***




